CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# Cynllun Strategol 2022 i 2032
# Cymraeg mewn Addysg



RHONDDA CYNON TAF

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022 – 2032

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yma wedi'i baratoi o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013[1] ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019[2] a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020[3]. Wrth osod targedau, mae sylw dyledus wedi'i roi i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Gaynor Davies
**(Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant)**

DRAFFT

[1] Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
[2] Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[3] Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Y Coronafeirws) 2020

**TUDALEN GYNNWYS**


| CYNNWYS | TUDALEN: |
|---|---|
| Ein Gweledigaeth | 3 |
| Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 6 |
| Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg | 16 |
| Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | 21 |
| Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | 26 |
| Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol | 32 |
| Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) | 36 |
| Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg | 40 |
| Marchnata | 44 |
| Cyflawni ein Gweledigaeth | 45 |
| Atodiad Un: Methodoleg ar gyfer Gosod Targedau | 47 |
| Atodiad Dau: Proffil Ieithyddol y Fwrdeistref Sirol | 49 |
| Atodiad Tri: Data Llinell Sylfaen | 51 |
| Atodiad Pedwar: Lleoedd dros ben | 61 |
| Rhestr Termau | 62 |


DRAFT

**EIN GWELEDIGAETH**

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Awdurdod Lleol (ALl) am adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma a sicrhau bod pob tref a chymuned yn y Fwrdeistref Sirol yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae. Uchelgais yr ALl yw bod pawb mor iach, annibynnol a llewyrchus ag sy'n bosibl trwy gydol eu bywydau. Mae agor y drws i addysg dda, datblygu sgiliau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth o safon i gyd yn feysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae'r weledigaeth ganlynol yn ganolog i gyflawni'r uchelgais yma:

*I ysbrydoli a chefnogi arweinyddiaeth ac arferion proffesiynol rhagorol fel bod modd i bob dysgwr yn Rhondda Cynon Taf wneud ddatblygu'n llwyddiannus a dod yn unigolion uchelgeisiol, galluog, creadigol â gwybodaeth gadarn am faterion moesegol.*

Bydd yr ALl yn cyflawni'r weledigaeth yma trwy gefnogi plant i gael y dechreuad gorau mewn bywyd a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu trwy system y blynyddoedd cynnar well, cefnogi teuluoedd trwy'r cynnig gofal plant ac hefyd trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd a gwell i ysgolion a chymunedau, a hynny trwy gynllun Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif.

Bydd gweledigaeth yr ALl ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn dangos arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad clir, ac i'r perwyl hyn, ein nod yw:

*Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 8% a 12% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yma ('y Cynllun Strategol'). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 506 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg i rwng 720 ac 825 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg.*

Mae'r targed yma wedi'i osod yn unol â Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ('Rheoliadau 2019') a Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Y Coronafeirws) 2020. Wrth osod y targed yma, mae sylw dyledus wedi'i roi i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r targed yma'n seiliedig ar gyfrannu at y targed tymor hir cyffredinol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yng nghynllun Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr[4] (Cymraeg 2050). Mae esboniad manylach o'r fethodoleg a gafodd ei defnyddio i osod y targed yma ar gael yn Atodiad Un - Methodoleg ar gyfer Gosod Targedau.

Gan fod cyfraddau geni'n gostwng, bydd cyflawni'r targed yma'n her ac yn gofyn am sawl dull gwahanol. Bydd yr ALl yn gwneud pob ymdrech i feithrin perthynas waith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a all gyfrannu ato, a chynnal y berthynas honno. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am broffil ieithyddol y Fwrdeistref Sirol yn Atodiad Dau, ac mae'n nodi bod 19.6% o'r ymatebwyr sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ym mis Mehefin 2021 yn medru'r Gymraeg, o'i chymharu â chanran Cymru gyfan o 25.9%.

[4] Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr

Mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb yn y lleoliad cywir waeth pa anghenion dysgu sydd gyda nhw, o ddechrau'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch, yn allweddol wrth gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae manylion ar y data llinell sylfaen sy’n ymwneud â phob un o’r saith deilliant sy’n sail i’r CSCA yn Atodiad Tri ac yn rhoi cyd-destun pellach i’r ALl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ALl wedi ymrwymo i godi ansawdd a chynyddu argaeledd lleoliadau cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o estyniadau i leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar sy'n bodoli eisoes, a sefydlu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar newydd ar gyfer y Rhaglen Dechrau'n Deg a lleoliadau gofal plant sy'n codi tâl.

Ar hyn o bryd, mae gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg leoedd dros ben (manylion yn Atodiad Pedwar). Serch hynny, mae yna ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd lle mae'r galw yn uchel a lle mae angen rhagor o leoedd arnyn nhw. Yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yma, mae camau'n cael eu cymryd – neu maen nhw wedi cael eu cymryd – i fynd i'r afael â'r materion yma. Yn ogystal â hyn, mae Band B rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl yn cynnwys ystod o brosiectau. Mae nifer o'r prosiectau'n cynnig cynyddu a gwella nifer y lleoedd a chyfleusterau cymunedol ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn sylweddol.

Mae'r ALl yn parhau i ddarparu a chefnogi ei raglen fuddsoddi strategol hirdymor i greu amgylcheddau ysgolion sy'n diwallu anghenion cymunedau ac yn rhoi'r ddarpariaeth ddysgu a'r canlyniadau gorau ar gyfer plant, pobl ifainc a'r gymuned ehangach. Mae nifer o brosiectau ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn rhan o Raglen Gyfalaf yr ALl am y tair blynedd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20. Yn ogystal â hyn, yn ystod yr un cyfnod, mae'r ALl wedi gwario tua £4.7 miliwn ar waith cyfalaf rhaglenni wedi'u cynllunio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Dysgwyr (CYBLD) yn dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr oedran ysgol cynradd ac uwchradd sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21. Yn ogystal â hyn, o edrych ar y data, mae'n ymddangos nad yw'r broses bontio i ddysgwyr, na chwaith eu cadw, rhwng Cyfnodau Allweddol yn broblem sylweddol.

Ar hyn o bryd, mae dysgwyr cyfrwng Cymraeg ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sy'n profi anawsterau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ac sydd angen cefnogaeth fwy arbenigol arnyn nhw, yn cael eu cefnogi gan garfan beripatetig arbenigol, sef Carfan Anghenion Cymhleth y Gymraeg - mae'r Garfan yma'n darparu cefnogaeth trwy fodel cyflenwi cynhwysol, lle mae dysgwyr yn cael cefnogaeth arbenigol yn eu hysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cefnogodd y Garfan 18 o ddysgwyr a oedd wedi bodloni’r meini prawf ar gyfer cefnogaeth arbenigol / lleoliad (sy’n cyfateb i Ddosbarth Cynnal Dysgu yn y sector Saesneg). O ddadansoddi'r data ynghylch Cynlluniau Ymyrraeth Arbenigol a

chynnydd bob tymor, mae'n dangos bod cynnydd dysgwyr a oedd yn cael eu cefnogi gan fodel gynhwysol y Garfan yn debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg cyfatebol. Nod tymor hir y Cyngor yw darparu system ADY cwbl ddwyieithog yn unol â gofynion yn unol â dyletswyddau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018. Bydd y Gwasanaeth Cynhwysiant yn cynnal gwerthusiad blynyddol o ddigonolrwydd ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gydol y cyfnod gweithredu ADY cenedlaethol graddol 3 blynedd. Bydd unrhyw werthuso yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad â'r holl asiantaethau partner a rhanddeiliaid perthnasol ar sail leol a rhanbarthol / isranbarthol i alluogi'r Cyngor i nodi targedau a / neu flaenoriaethau tymor byr a chanolig ar gyfer gwella darpariaeth dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn rhan o gynllun strategol tymor hir.

Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu. Rhaid i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru yn genedlaethol a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ('y Consortiwm') yn rhanbarthol i sicrhau ein bod ni'n cyfrannu tuag at greu gweithlu gyda sgiliau ieithyddol cadarn sy'n gallu ysbrydoli'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r ALl wedi ymrwymo i gynllunio gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a bydd yn parhau i weithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill, y Consortiwm a Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso'r broses o greu mwy o siaradwyr Cymraeg.

Ochr yn ochr â hyn, rhaid i ni weithio i sicrhau bod manteision addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni/gwarcheidwaid a dangos ei bod hi byth yn rhy hwyr i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd gwneud hyn trwy ddefnyddio dosbarthiadau trochi ar gyfer y Gymraeg i gefnogi'r dysgwyr hynny sy'n hwyrddyfodiaid i'r iaith.

Gan gydnabod pwysigrwydd Cymraeg 2050, a pha mor hanfodol yw'r system addysg i gyflawni'r weledigaeth, mae'r Cynllun Strategol yma'n nodi cynllun deng mlynedd yr ALl ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg, yn ogystal â gwella cynllunio'r ddarpariaeth honno. Mae'n defnyddio'r Cynllun Strategol blaenorol[5] yn sail iddo, ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Gwaith Blynyddol. Nod y Cynllun Gwaith yma yw bod yn ddogfen weithio ymarferol sy'n helpu i fonitro cynnydd y Cynllun Strategol yn y tymor byr.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol yma, mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol wedi'u hystyried er mwyn annog a hwyluso'r twf tymor hir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r ALl wedi sicrhau bod y Cynllun yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol a pherthnasol sy'n effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg, a bydd yn parhau i sicrhau hynny.

## DEILLIANT 1: : MWY O BLANT MEITHRIN/TAIR OED YN CAEL EU HADDYSG DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

[5] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – 2017 i 2020

## Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mor gynnar â'r cyfnod cyn-geni mae modd sefydlu dull trochi yn y Gymraeg a chefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid er mwyn i'w plentyn barhau'n ddi-dor â'u taith addysg statudol i addysg cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau llwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol. Mae cynllun Cymraeg i Blant, sy'n gweithio ochr yn ochr â Charfan Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn negeseuon cynnar allweddol ynghylch y Gymraeg yn ystod y cyfnod cyn-eni. Yn ystod y cyfnod ôl-enedigol, rhwng 0 a 2 oed, gall rhieni/gwarcheidwaid fynychu sesiynau 'Cylch Ti a Fi' a 'Cymraeg i Blant' iddyn nhw a'u plant bach, ac yna grwpiau Cylch Meithrin, wedi'u trefnu gan Mudiad Meithrin, ar gyfer plant rhwng 2 a 4 oed. Gallan nhw fynd ymlaen wedyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o 3 oed. Mae ystod o gynlluniau, gan gynnwys Rhaglenni Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn ategu a chefnogi'r grwpiau a'r ysgolion yma. Bydd pob plentyn sy'n mynychu'r grwpiau a'r ysgolion yma'n sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, caiff rhieni/gwarcheidwaid eu hannog i gofrestru ar gwrs Clwb Cwtsh, sef cwrs wyth wythnos yn rhad ac am ddim sy'n rhoi blas ar y Gymraeg iddyn nhw fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am fanteision magu plant gan ddefnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc, mae'r ALl wedi diweddaru ei lyfryn 'Bod yn Ddwyieithog'. Nod y llyfryn yma yw rhoi gwybodaeth am fanteision bod yn ddwyieithog, rhoi syniad am y llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb cwestiynau cyffredin ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Carfan Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn y gymuned yn dosbarthu'r llyfryn.

Yn ogystal â hyn, mae model newydd ar gyfer Ymwelwyr Iechyd wedi'i gyflwyno yn rhan o gynllun peilot. Cafodd Rhaglen Iechyd y Gwasanaeth Lles a Chydnerthedd ei lansio ym mis Hydref 2020 i ddarparu gwell gwasanaethau ym maes Ymwelwyr Iechyd. Yn sail i ddarparu'r Rhaglen yma mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Dyma'r model integredig unigol sy'n darparu cymorth i deuluoedd. Bydd y Rhaglen yma'n disodli hen fodel Ymwelwyr Iechyd Rhaglen Dechrau'n Deg a oedd ar gael i deuluoedd cymwys yn unig. Mae'n Rhaglen gyffredinol sy'n cynnwys dau ymweliad ychwanegol gan Ymwelydd Iechyd o'i gymharu â phatrwm Ymwelwyr Iechyd Plant Iach Cymru, ymweliad cynenedigol ac ymweliad ychwanegol ar ôl 20 mis i gynnal asesiad Rhestr Sgiliau Tyfu. Wrth symud tua'r dyfodol, bydd gwaith ynglŷn â hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg yn cael ei gynnal gyda'r carfanau ymyrraeth gynnar ac arbenigwyr maes iechyd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd plant 0 i 3 oed. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy ddatblygu a chynnal hyfforddiant priodol ar gyfer tynnu sylw at fuddion dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Caiff gwybodaeth am ddewis lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ei rhannu gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr ALl. Caiff hyn ei wneud trwy wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol yr ALl a thrwy sgyrsiau ar lafar. Yn yr un modd, mae Carfan Gofal Plant yr ALl hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni/gwarcheidwaid ac yn cefnogi lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyrwyddo a chodi

ymwybyddiaeth o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/gwarcheidwaid yn rhan o waith Carfan Gofal Plant yr ALl.

Mae Llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' yr ALl hefyd yn darparu ystod o wybodaeth i rieni/gwarcheidwaid, gan gynnwys cyngor ar ddewis ysgol, cyfeirlyfr o ysgolion a gwybodaeth am ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol. Yn ogystal â hyn, mae gwefan newydd Teuluoedd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar fin cael ei lansio. Bydd yn adnodd gwerthfawr i hyrwyddo rhannu gwybodaeth rhwng yr holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a byddai modd ei defnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae rhieni/gwarcheidwaid hefyd yn cael eu cyfeirio at wybodaeth sydd wedi'i darparu gan grwpiau a sefydliadau perthnasol, gan gynnwys Welsh4Parents/Cymraeg i Rieni, sef cyfeiriadur sy'n cynnwys dolenni i ystod eang o adnoddau Cymraeg eu hiaith sydd ar gael ar ystod o blatfformau digidol.

Er mwyn sicrhau bod lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo i rieni/gwarcheidwaid, mae'r ALl hefyd yn gweithio ar y cyd â Mudiad Meithrin a darparwyr a sefydliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg eraill. Er mwyn hwyluso hyn, mae Grŵp Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae – sy'n dod â swyddogion yr ALl a darparwyr a sefydliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg eraill ynghyd – wedi'i ailsefydlu yn ddiweddar. Yn ogystal â hynny, mae Cynllun Strategol Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys manylion ar sut gall darpariaeth cyfrwng Cymraeg cael ei datblygu ar draws gwasanaethau allweddol y Cyngor.

Mae 18 o Gylchoedd Ti a Fi ac 20 o Gylchoedd Meithrin ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r data yn Atodiad Tri yn nodi bod nifer y Cylchoedd Meithrin wedi gostwng yn ystod y pum mlynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith negyddol ar nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn ystod y blynyddoedd yma, gyda nifer y plant rhwng 2 a 4 oed sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn gostwng hefyd. Serch hynny, dylid nodi y dylid trin data am niferoedd Cylchoedd Meithrin yn ofalus. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y data, gan gynnwys, e.e. newid yn statws cofrestru Cylch Meithrin o leoliad gofal sesiynol i leoliad gofal oriau dydd llawn. Gall hyn wneud i’r data edrych fel bod nifer y Cylchoedd Meithrin wedi gostwng. Yn ogystal â hyn, fyddai Cylch Meithrin a oedd yn gorfod cau oherwydd y Coronafeirws ddim yn cael ei gyfri’n rhan o’r data. Serch hynny, bydd gwella'r cynnig yma yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun yn bwysig wrth ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cynyddu niferoedd yn y sector.

Mae 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y dysgwyr Meithrin/tair oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi parhau'n sefydlog.

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006[6] (Deddf 2006), mae dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i sicrhau, hyd y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod digon o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddiwallu anghenion rhieni/gwarcheidwaid sydd angen

[6] Deddf Gofal Plant 2006 - Adran 22

gwasanaeth gofal plant er mwyn gweithio, ymgymryd â hyfforddiant neu addysg, neu baratoi i weithio. Mae gydag Awdurdodau Lleol y prif gyfrifoldeb dros hwyluso'r farchnad gofal plant i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion rhieni/gwarcheidwaid, yn enwedig y rheiny sydd ag incwm isel, y rheiny sydd â phlant ag ADY, neu'r rheiny sydd am i'w plant fynychu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Mae Deddf 2006 yn gofyn i Awdurdodau Lleol lunio Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn eu hardal ac anghenion rhieni/gwarcheidwaid, yn ogystal â llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion sydd wedi'u nodi. Cafodd hyn ei diweddaru ym mis Ebrill 2016 pan ddaeth Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016[7] i rym.

Roedd Asesiadau'r ALl am y cyfnod rhwng 2017 a 2022[8] wedi craffu ar ystod o ddata a gwybodaeth er mwyn deall yn well y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a oedd ar gael, ochr yn ochr ag anghenion rhieni/gwarcheidwaid. Yn ôl y data (Atodiad Tri), roedd 195 o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg cofrestredig a oedd yn cynnig 775 o leoedd. Roedd 15 o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg anghofrestredig a oedd yn cynnig 16 o leoedd. Yn fwy penodol, yn ôl y data, roedd 26 o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg cofrestredig a oedd yn cynnig 771 o leoedd a 5 lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg anghofrestredig a oedd yn cynnig 80 o leoedd.

Gan ddefnyddio'r data a'r wybodaeth yma, cafodd cynllun gweithredu ei lunio er mwyn nodi lle, pryd a pha fath o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar y dylid eu datblygu neu'u cefnogi. Nododd y cynllun gweithredu gyfanswm o 24 o flaenoriaethau, ac roedd y canlynol yn ymwneud â lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg:

- Ceisio recriwtio gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardaloedd cynllun peilot cychwynnol Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Ceisio recriwtio rhagor o warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg yn ardal ddeheuol Taf-elái
- Archwilio'r galw am leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardaloedd Cwm Rhondda Fawr a Chwm Cynon Uchaf
- Gwella sgiliau staff ysgolion er mwyn iddyn nhw fod â'r cymwysterau perthnasol i weithio mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn enwedig staff ysgolion cyfrwng Cymraeg

Cafodd diweddariad blynyddol cyntaf Cynllun Gweithredu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr ALl ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019[9]. Roedd yn amlinellu nifer o gryfderau a gwendidau, ynghyd â blaenoriaethau a'r cynnydd a wnaed. Cafodd diweddariad blynyddol arall ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020[10]. Roedd yn amlinellu

[7] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016
[8] Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf - 2017-2022
[9] Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 2017 - 2022, Cynllun Gweithredu - Mawrth 2019 : Diweddariad Blynyddol
[10] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Cofnod o Benderfyniad Brys y Cabinet - Diweddariad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant - 24 Mawrth 2020

DRAFT

cyflawniad cynnydd sylweddol. Yn 2021, roedd y diweddariad blynyddol a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021[11] yn nodi, er gwaethaf heriau pandemig Covid-19, roedd yr ALl mewn sefyllfa dda o ran ei ddarpariaeth gofal plant bresennol i ddiwallu anghenion cyfredol y mwyafrif o rieni/gwarcheidwaid sy'n gweithio, gyda gwaith datblygu yn parhau er mwyn ymateb i'r galw gan rieni/gwarcheidwaid ac mewn ardaloedd lle mae angen wedi'i nodi. Bydd cynllunio strategol hefyd yn cael ei lywio gan leoliad, daearyddiaeth a'r galw i sicrhau bod darpariaeth deg ar gael ledled y Sir. Byddwn ni'n cyfeirio at hyn yn flynyddol yn rhan o'r cynllun cyflawni, fel bod modd cadw llygad ar y gwaith yma.

Arweiniodd dadansoddiad pellach o'r data a'r wybodaeth yma at gyflwyno cynigion cyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Roedd y cynigion trwy Gynllun Grant Cyfalaf[12] y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cefnogi datblygiad lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Roedd yr ALl yn llwyddiannus, gan dderbyn arian ar gyfer nifer o brosiectau. Mae'r holl brosiectau'n cefnogi gwaith cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ddarparu gofal plant i deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Rhaglen Dechrau'n Deg[13] Llywodraeth Cymru. Mae gofal plant yn un o bedair elfen allweddol Rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'n darparu gofal plant yn rhad ac am ddim i deuluoedd cymwys sydd â phlant rhwng 2 a 3 oed am ddwy awr a hanner y dydd, bum niwrnod yr wythnos am dri deg naw wythnos o'r flwyddyn. Mae elfen o ofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei darparu gan leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar dan reolaeth yr ALl, gyda'r mwyafrif helaeth yn cael ei ddarparu gan leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar sydd wedi'u comisiynu. Ar hyn o bryd, mae tua 25% o ofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg sydd wedi'i gomisiynu yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfanswm o 686 o leoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu o 32 o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. At ei gilydd, mae 77.3% (530) o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Saesneg wedi'u comisiynu trwy 23 o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Mae 22.7% (156) o leoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi'u comisiynu trwy 9 lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Cafodd ymarfer tendro diwethaf Rhaglen Dechrau'n Deg ei gynnal yn 2018. Erbyn mis Tachwedd 2020, roedd 34 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u prynu trwy leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cymeradwy. Roedd 12 o leoedd gofal plant cyfrwng Saesneg ychwanegol Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u prynu trwy leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cymeradwy, gan gynyddu cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant wedi'u prynu i 732. Mae hyn oherwydd dewis rhiant/gwarcheidwad neu ddiffyg lle ar gael mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar lleol.

[11] Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf : Diweddariad 2021 - 25 Mawrth 2021
[12] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Cabinet – Cais am Gyllid Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant – 8 Mai 2019
[13] Llywodraeth Cymru – Rhaglen Dechrau'n Deg

O'r cyfanswm hwnnw o leoedd gofal plant wedi'u comisiynu, dim ond 90% (659) a oedd wedi'u cymryd. O gyfanswm y 156 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg a gafodd eu comisiynu'n wreiddiol, dim ond 58.9% (92) a oedd wedi'u cymryd. Gall hyn yn awgrymu'r oedd y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u comisiynu yn yr ardaloedd anghywir. Oherwydd hyn, roedd rhaid prynu 34 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol Rhaglen Dechrau'n Deg (gan gynyddu cyfanswm y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u comisiynu i 190). Mae cyfanswm o 19.1% (126) o blant sy'n mynychu lleoliad gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg yn mynychu lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Roedd yr ALl yn falch o gael ei ddewis yn un o'r sefydliadau cyntaf i roi Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar waith[14]. Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sydd bellach ar gael trwy Gymru gyfan, yn cynnig hyd at dri deg awr yr wythnos o addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen wedi'i chyfuno â gofal plant wedi'i ariannu ychwanegol ar gyfer plant cymwys rhwng 3 a 4 oed. Nod y polisi blaenllaw yma yw helpu rhieni/gwarcheidwaid i ddechrau gweithio a lleihau'r effaith niweidiol y mae tlodi'n ei chael arnyn nhw a'u plant.

Er mwyn cefnogi lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, mae staff ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio technegau sy'n galluogi plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn haws, mae'r ALl wedi manteisio ar raglen Croesi'r Bont yn ddiweddar, a hynny trwy Mudiad Meithrin. Ar hyn o bryd, mae rhaglen Croesi'r Bont wedi'i sefydlu mewn hanner yr holl leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy'n Ddarparwyr Addysg Cofrestredig a bydd yn cael ei sefydlu yn yr hanner arall cyn gynted â phosibl. Yn ogystal â hyn, mae'r ALl yn gweithredu rhaglen 'Clebran' i gefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg sy'n Ddarparwyr Addysg Cofrestredig. Mae'r rhaglen yma'n cefnogi'r lleoliadau yma i ymgorffori'r Gymraeg gan ddefnyddio gweithdai ac adnoddau ar-lein. Mae Carfan Gofal Plant yr ALl hefyd yn hyrwyddo cyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg i leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ac yn gweithio ar y cyd â nhw i ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n bosibl.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008[15] (y Mesur) yn gosod dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i bellter cerdded diogel i'r ysgol honno. Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi), ysgol/dosbarth arbennig neu Uned Atgyfeirio Dysgwyr fel y bo’n briodol. Mae’r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddysgwyr o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg gynradd, a thair milltir i ddysgwyr o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg uwchradd.

Mae'r ALl wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan y Mesur, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddysgwyr, fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir

[14] Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru
[15] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle bo lleoedd ar gael, wedi'i ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n bodloni meini prawf 1½ milltir ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (tymor yr ysgol sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed), yn hytrach nag ar ddechrau addysg orfodol (y tymor nesaf yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed)
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n cael addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 2 filltir, yn hytrach na 3 milltir
- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r maen prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae dysgwr yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed). Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddysgwyr amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr (fel sydd wedi'i nodi uchod) yn unol â'u henwad crefyddol o ddewis

Mae Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yr ALl[16] yn cynnwys gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid a dysgwyr am sut y caiff y polisi ei roi ar waith yn ymarferol a sut mae'r ALl yn sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae polisi cyfredol yr ALl yn nodi bod dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith agosaf yn cael gwasanaeth cludiant am ddim yn unol â pholisi'r ALl ynghylch pellter cerdded a llwybrau diogel.

Dydy elfennau dewisol polisi'r ALI ddim yn destun adolygiad ar hyn o bryd, fodd bynnag, os ydyn nhw'n cael eu hadolygu yn y dyfodol, mae yna ddealltwriaeth y gall unrhyw newid i ddarpariaeth ddewisol gael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr ac, pe bai cytuno ar y newidiadau, byddai'r newidiadau fel arfer yn dod i rym ar ddechrau blwyddyn ysgol ac yn bodloni gofynion y ddogfen Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol – Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014.[17]

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

- Dydy hi ddim yn bosibl cael amcangyfrif arfaethedig dibynadwy o nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin. Serch hynny, mae'r data ar gyfer y pedair blynedd academaidd flaenorol yn dangos bod nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin wedi gostwng. Bydd angen i hyn fod yn darget pwysig ar gyfer twf yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun.
- Bydd yr asesiad digonolrwydd gofal plant hefyd yn llywio blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella a gweld twf yn y sector gofal plant, gan gynnwys meithrinfeydd oriau dydd a gwarchodwyr plant

[16] Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr
[17] Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol - Mehefin 2014

DRAFT

- Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr a allai fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg  yn ystod y pum mlynedd academaidd sydd i ddod
- Yn seiliedig ar ragolygon dros dro, rydyn ni'n rhagweld y bydd nifer y dysgwyr Meithrin / tair oed a fydd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pum mlynedd academaidd gyntaf y Cynllun Strategol yma'n cynyddu

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, rhaid i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n rhan o Grŵp Strategol y Cynllun fynd ati i weithio gyda'i gilydd i gynyddu'r amcangyfrif arfaethedig yma ymhellach.

Bydd yr ALl yn parhau i weithio gyda grwpiau a sefydliadau allanol i gynorthwyo rhieni/gwarcheidwaid i drochi eu plant yn y Gymraeg o oedran ifanc, gan amlinellu llwybr parhaus y dilyniant ieithyddol sydd ar gael. Bydd yr ALl yn gweithio ar y cyd â Mudiad Meithrin i sicrhau bod lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac yn hawdd eu cyrchu. Yn ogystal â hyn, bydd Mudiad Meithrin yn parhau i annog rhieni/gwarcheidwaid i gofrestru ar gwrs Clwb Cwtsh a chynyddu'r niferoedd sy'n mynychu.

Bydd gwybodaeth am fanteision magu plant trwy ddefnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc yn cael ei darparu o hyd i rieni/gwarcheidwaid trwy nifer o strategaethau, gan gynnwys defnyddio'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog'. Bydd Carfan Gofal Plant yr ALl yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/gwarcheidwaid.

Bydd yr ALl yn gweithio o hyd ar y prosiectau sy'n weddill sydd wedi'u hariannu trwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a Chynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac yn eu cyflenwi. Mae'r prosiectau yma'n cefnogi gwaith cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gyda chyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r prosiectau a gafodd eu cwblhau'n ddiweddar neu sydd i fod i gael eu cwblhau yn ystod pum mlynedd academaidd gyntaf y Cynllun Strategol yma'n cynnwys:

- Ysgol Gynradd y Dolau (gan gynnwys yr Uned Gymraeg)
- Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Ysgol Llanhari
- Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James
- Ysgol Gynradd Gymraeg Ynys-wen
- Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon
- Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Pan fyddan nhw wedi'u cwblhau, rydyn ni'n rhagweld y bydd cynnydd o 65% yn nifer y lleoedd a fydd ar gael i ddysgwyr Meithrin / tair oed dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r prosiectau yma. Bydd trywydd pob cynllun wrth gyfrannu at y targedau uchelgeisiol yn cael eu mesur yn flynyddol yn erbyn cynllun gweithredu.

Pan fydd cyllid ychwanegol ar gael, bydd yr ALl yn uchelgeisiol o ran ei gynigion i fuddsoddi mewn darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er

mwyn cyrraedd y targed o gael 720 o ddysgwyr blwyddyn un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Yn rhan o’r gwaith paratoi ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf, byddwn ni'n cynnal ymarfer mapio holl leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn i ni gael darlun mwy manwl ohonyn nhw. O edrych ar y canfyddiadau, bydd dadansoddiad o'r diffygion yn cael ei lunio. Bydd meysydd i'w gwella'n cael eu nodi, ynghyd â strategaethau arfaethedig er mwyn cyflawni gwelliannau.

Ar hyn o bryd, bydd pob rhiant/gwarcheidwad sy'n gofyn am le gofal plant cyfrwng Cymraeg ar Raglen Dechrau'n Deg yn cael cynnig hynny - naill ai mewn lleoliad gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg neu lleoliad y blynyddoedd cynnar dan reolaeth yr ALl neu drwy leoliad gofal plant wedi'i gomisiynu. Er gwaethaf y cynnig yma, mae rhieni/gwarcheidwaid yn aml yn gwrthod y cynnig gofal plant oherwydd bod lleoliad gofal plant cyfrwng Saesneg yn agosach at eu cartref. Mae'r ardal felly – yn hytrach na'u dewis iaith wreiddiol – yn llywio'u penderfyniad. Nod Carfan Hyblygrwydd Rhaglenni'r ALl yw ail-gomisiynu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg Rhaglen Dechrau'n Deg i sicrhau bod digon o gyfle i rieni/gwarcheidwaid gyrchu'r lleoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar yma yn eu hardal. Caiff hyn ei gyflawni trwy gomisiynu nifer fach o leoliadau mewn nifer fwy o leoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar i sicrhau gwasgariad daearyddol digonol ledled y Fwrdeistref Sirol. Nod yr ALl yw darparu o leiaf 25% o holl leoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, er mwyn annog rhieni/gwarcheidwaid i ystyried lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg Rhaglen Dechrau'n Deg, bydd ymgyrchoedd a dulliau marchnata gwell yn cael eu defnyddio.

Bydd yr ALl yn parhau i sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei farchnata a'i weinyddu'n effeithiol ac yn parhau i ateb y galw lleol, gan ganiatáu i rieni/gwarcheidwaid gyrchu addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant wedi'i ariannu ychwanegol mewn un lleoliad cyfleus.

Bydd lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a staff ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio technegau sy'n galluogi plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn haws trwy'r rhaglen Croesi'r Bont (Mudiad Meithrin) mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy'n Ddarparwyr Addysg wedi'u Cofrestru. Bydd rhaglen Clebran yn cael ei defnyddio i gefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n Ddarparwyr Addysg wedi'u Cofrestru. Yn ogystal â hyn, bydd Carfan Gofal Plant yr ALl yn parhau i hyrwyddo cyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg i leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ac yn gweithio ar y cyd â nhw i ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n bosibl.

## BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

Er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, byddai modd rhoi pwyslais ar annog rhieni/gwarcheidwaid i ddewis lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Gallai hyn sicrhau bod plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg o oedran ifanc. Mae

Cymraeg 2050 yn amlinellu mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull er mwyn sicrhau bod Cymraeg y plant yma'n datblygu ac er mwyn creu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae buddsoddiad mewn nifer o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg trwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr Meithrin / tair oed dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd Cynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi'u cwblhau, gan gyflawni gwaith cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd cynnydd o 65% yn y lleoedd i ddysgwyr Meithrin / tair oed dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r prosiectau yma.

Yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, rydyn ni'n rhagweld y bydd cyllid ychwanegol ar gael i fuddsoddi ymhellach mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ALl yn uchelgeisiol gyda'i gynigion i fuddsoddi mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yr ALl wedi cael darlun mwy manwl o'r holl leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, a hynny trwy gwblhau ymarfer mapio ohonyn nhw, yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf. O ddadansoddi'r canfyddiadau yma, bydd yr ALl wedi nodi meysydd i'w gwella ac wedi nodi strategaethau a'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni gwelliannau. Bydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) yn fodd ar gyfer gwaith mapio manwl o'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn y sector a bydd yn llywio cynlluniau cyflenwi strategol blynyddol.

Nod yr ALl yw darparu o leiaf 25% o holl leoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg Rhaglen Dechrau'n Deg yn cael eu marchnata'n well er mwyn annog rhieni/gwarcheidwaid i'w hystyried yn ddewis i'w plentyn. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau hyrwyddo gyda'r nod o dynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd trwy gyfwng fideos, astudiaethau achos, podlediadau, postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrch farchnata ragweithiol. Yn sail i hyn, bydd strategaeth farchnata glir gyda'r nod o hyrwydd addysg gyfrwng Cymraeg sy'n cael ei hategu gan negeseuon clir ar amrywiaeth i wahanol lwyfannau digidol sy'n tynnu sylw at y llwybrau clir o addysg y blynyddoedd cynnar i addysg bellach ac addysg uwch.

Mae'r ALl yn cydnabod bod datblygu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn holl bwysig er mwyn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r buddsoddiad yma'n cefnogi rhieni/gwarcheidwaid i barhau'n ddi-dor â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg**,** gan sicrhau llwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol. Bydd yr ALl yn parhau i weithio ar y cyd â Mudiad Meithrin i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu

Cylchoedd Meithrin i barhau â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr ALl yn parhau i sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei farchnata a'i weinyddu'n effeithiol ac yn parhau i ateb y galw lleol, gan ganiatáu i rieni/gwarcheidwaid gyrchu addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant wedi'i ariannu ychwanegol mewn un lleoliad cyfleus.

Bydd lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a staff ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu hannog i ddefnyddio technegau sy'n galluogi plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn haws trwy raglen Croesi'r Bont (Mudiad Meithrin) a'r rhaglen Clebran. Bydd hyrwyddo cyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg i leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn parhau, ynghyd â gweithio ar y cyd â nhw i ddatblygu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

**DATA ALLWEDDOL**

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Meithrin / tair oed a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (ar sail rhagolygon dros dro), o'i gymharu ag amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Meithrin / tair oed a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

| **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Meithrin / tair oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun Strategol yma** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Meithrin / tair oed a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Ar sail rhagolygon dros dro)** | | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Meithrin / tair oed a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| 2022 / 2023 | 481 | 20.6% | 481 | 20.6% |
| 2023 / 2024 | 460 | 18.7% | 509 | 20.7% |
| 2024 / 2025 | 471 | 19.3% | 537 | 22.1% |
| 2025 / 2026 | 476 | 19.5% | 568 | 23.3% |
| 2026 / 2027 | 485 | 19.9% | 601 | 24.7% |
| 2027 / 2028 | 485 | 19.9% | 636 | 26.1% |
| 2028 / 2029 | 485 | 19.9% | 672 | 27.6% |
| 2029 / 2030 | 485 | 19.9% | 711 | 29.2% |
| 2030 / 2031 | 485 | 19.9% | 750 | 29.6% |
| 2031 / 2032 | 485 | 19.9% | 750 | 29.6% |

**DEILLIANT 2: : MWY O BLANT DOSBARTH DERBYN/PUMP OED YN CAEL EU HADDYSG DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

DRAFT

## Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer plant 3 i 19 oed, tair ysgol gynradd dwy iaith ar gyfer plant 3 i 11 oed a 12 o ysgolion cynradd ar gyfer plant 3 i 11 oed. Mae’r rhain wedi’u dosbarthu’n deg ar draws y Cyngor.

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yn ystod y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu.

Mae nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yr ALl. Maen nhw'n defnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae unrhyw gynnydd mewn poblogaethau dysgwyr, yn enwedig o fewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn cael ei fonitro'n ofalus. Os yw'r cynnydd yn glir ac yn cael ei gynnal o fewn dalgylch ysgol benodol, mae cynyddu nifer y lleoedd angenrheidiol yn cael ei ystyried yn y ffordd sydd fwyaf priodol ac sydd fwyaf addas i'r ysgol benodol honno. Yn flynyddol, mae'n ofynnol i'r ALl gyflwyno Gwybodaeth Cynllunio Lleoedd Ysgol i Lywodraeth Cymru. Mae'n manylu ar nifer y lleoedd ym mhob ysgol, nifer y dysgwyr ar y gofrestr ac amcangyfrif arfaethedig nifer y dysgwyr. Caiff gwaith blaengynllunio manwl ei gynnal trwy gymharu nifer y lleoedd ym mhob ysgol ac amcangyfrif arfaethedig nifer y dysgwyr.

Ar hyn o bryd mae lleoedd dros ben yn y mwyafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn seiliedig ar ddata CYBLD 2021, roedd 24% o leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (Gweler Atodiad Pedwar ar gyfer rhagor o wybodaeth).

Serch hynny, mae yna nifer o ysgolion cynradd ble mae angen rhagor o leoedd, felly mae camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion yma, neu mae'r camau eisoes ar waith. Mae gweithredu o'r fath yn cynnwys:

- Creu'r Ysgol Garth Olwg newydd i ddysgwyr 3 i 19 oed, a hynny trwy gau'r hen ysgol gynradd, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg, a'r hen ysgol uwchradd, Ysgol Gyfun Garth Olwg. Roedd hyn wedi galluogi'r hen ysgol gynradd i ehangu i'r lleoedd dros ben a oedd ar gael yn yr hen ysgol uwchradd
- Ehangu Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn i hen adeilad Ysgol Babanod Llwyncelyn (yn dilyn agor Ysgol Gymuned y Porth)
- Ehangu Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail i hen adeilad Ysgol Gynradd Tonyrefail (yn dilyn agor Ysgol Gymuned Tonyrefail)

Mae'r ALl yn parhau i ddarparu a chefnogi ei raglen fuddsoddi strategol hirdymor i greu amgylcheddau ysgolion sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ac yn rhoi'r ddarpariaeth ddysgu a'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifainc a'r gymuned ehangach. Caiff y rhaglen fuddsoddi strategol hirdymor yma'i chefnogi gan gyllid yr ALl a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif
- Grant Gofal Plant
- Grant Hybiau Cymunedol
- Grant Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Grant Cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar
- Grant Cyfalaf Lleihau Meintiau Dosbarthiadau Babanod
- Grant Cymorth Trochi'r Gymraeg
- Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg

Bydd Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £2.3 biliwn mewn seilwaith ysgolion a cholegau ledled Cymru. Un o amcanion buddsoddi allweddol y Rhaglen yma yw darparu seilwaith addysg effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am leoedd i ddysgwyr erbyn 2024. Yn fwy penodol, i ddarparu'r nifer cywir o leoedd i ddysgwyr er mwyn cyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl yn cynnwys ystod o brosiectau, gan gynnwys nifer o brosiectau sy'n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Mae buddsoddiad pellach wedi bod mewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y tair blynedd flaenorol, hyd at a chan gynnwys y blynyddoedd 2019/20. Mae hyn wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac wedi creu gwell adeiladau a dosbarthiadau i ddysgwyr. Cafodd hyn ei gyflawni trwy Raglen Gyfalaf yr ALl sy'n cynnwys cyfuniad o waith adnewyddu, ailfodelu, dymchwel ac adeiladu adeiladau newydd. Yn ystod yr un cyfnod, mae Rhaglen Gwaith Cyfalaf Mân wedi'i Gynllunio'r ALl, sy'n cynnwys rhaglen barhaus o fuddsoddi mewn ysgolion, wedi buddsoddi tua £1.2 miliwn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

- Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd o ran y gymhareb rhwng dysgwyr a allai fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y pum mlynedd academaidd sydd i ddod
- Yn ôl yr amcangyfrifon arfaethedig, mae'r lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn debygol o gynyddu i 28.1% yn ystod y pum mlynedd academaidd sydd i ddod
- Yn seiliedig ar ragolygon dros dro, rydyn ni'n rhagweld y bydd nifer y dysgwyr yn y dosbarth Derbyn / pum oed a fydd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pum mlynedd academaidd gyntaf y Cynllun Strategol yma'n gostwng

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, mae angen i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n ffurfio Grŵp Strategol, weithio ar y cyd i newid cyfeiriad y rhagolwg yma. Yn amlwg, dylai ehangu darpariaeth gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar ynghyd â hyrwyddo'r ddarpariaeth mewn modd effeithiol gael

effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â hynny, bydd cryfhau'r trefniadau trosglwyddo i addysg gynradd Gymraeg yn gofyn am gamau wedi'u targedu er mwyn sicrhau'r cynnydd angenrheidiol.

Gan ddefnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgolion, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth am enedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, bydd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yr ALl yn parhau i gynnal ymarfer mapio blynyddol o bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Caiff y canfyddiadau yma eu dadansoddi. Os oes cynnydd neu ostyngiad parhaus ac amlwg mewn dalgylch ysgol benodol, caiff ystyriaeth ei rhoi i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas â nifer y lleoedd, a hynny drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol ac addas i'r ysgol benodol honno.

Mae yna ychydig o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lle mae'r galw yn uchel ac o'r herwydd mae angen rhagor o leoedd. Yn yr ysgolion yma, mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, neu eisoes wedi'u cymryd, i fynd i'r afael â'r materion yma. Mae Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl yn cynnwys ystod o brosiectau, gan gynnwys nifer o brosiectau sy'n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol yma, bydd y Rhaglen yma wedi ei chwblhau. Bydd hyn, ochr yn ochr â chyllid sy'n dod yn uniongyrchol gan yr ALl, yn:

- Diwygio cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol gynradd dwy iaith i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (yn dilyn agor Ysgol Gynradd Hirwaun). Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn hefyd yn cael ei hymestyn
- Darparu estyniad pedair ystafell ddosbarth i Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Darparu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-Forwyn
- Darparu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn, ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd a'r dysgwyr cyfrwng Cymraeg hynny sy'n mynychu'r ysgol ddwy iaith Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn
- Darparu ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg newydd i ardal Cwm Rhondaa
- Darparu ysgol gynradd ddwy iaith newydd, yn y lle cyntaf, sy'n estyniad i ysgol gynradd ddwy iaith Dolau, a hynny'n rhan o ddatblygiad tai sylweddol

Bydd y prosiectau yma'n creu lleoedd ychwanegol, sef dros 300 o leoedd, i ddysgwyr, gan gynyddu nifer y lleoedd a fydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Rhaid i ni hefyd ddangos i rieni/gwarcheidwaid ei bod hi byth yn rhy hwyr i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd gwneud hyn trwy ddefnyddio dosbarthiadau trochi ar gyfer y Gymraeg i gefnogi'r dysgwyr hynny sy'n hwyrddyfodiaid i'r iaith. Mae'r ALl yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddysgwyr sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg, er mwyn annog unigolion i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad oes dosbarthiadau sy'n cefnogi trochi yn y Gymraeg yn ysgolion yr ALl ar hyn o bryd ar gyfer y rheiny sy'n hwyrddyfodiad, mae disgwyl i ysgolion gefnogi'r dysgwyr addysg cyfrwng Cymraeg yma yn ôl yr angen.

Rydyn ni'n ystyried bod hyn yn gweithio'n effeithiol. Serch hynny, er mwyn cefnogi’r dysgwyr hynny sy’n hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, os yw’r ALl yn llwyddiannus wrth geisio cyllid Grant Cymorth Trochi’r Gymraeg Llywodraeth Cymru, bydd yn treialu creu dosbarthiadau cymorth trochi’r Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid neu’r dysgwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol mewn dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â threialu model peripatetig o ran cymorth trochi’r Gymraeg ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Unwaith bydd y cynllun peilot yma wedi dod i ben caiff y canlyniadau e’u meintioli. Bydd cynigion ar gyfer sefydlu darpariaeth drochi barhaol yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022/23 yn cael eu cyflwyno i’w hystyried gan y Cabinet.

**BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?**

Mae'r buddsoddiad mewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y tair blynedd flaenorol, hyd at a chan gynnwys y blynyddoedd 2019/20 trwy Raglen Gyfalaf yr ALl wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr ysgolion cynradd ac wedi creu gwell amgylchedd ddysgu iddyn nhw trwy Raglen Gwaith Cyfalaf Mân wedi'i Gynllunio'r ALl. Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd y buddsoddiad yma wedi cynyddu ymhellach. Yn ogystal â hyn, bydd Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl, ynghyd â chyllid sydd wedi dod yn uniongyrchol gan yr ALl, wedi'i chwblhau, gan ddarparu estyniad pedair ystafell ddosbarth i ysgol gynradd sy'n bodoli eisoes a dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd y prosiectau yma wedi creu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr, gan gynyddu nifer y lleoedd a fydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, rydyn ni'n rhagweld y bydd cyllid ychwanegol ar gael i fuddsoddi ymhellach mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Pan fydd cyllid ychwanegol ar gael, bydd yr ALl yn uchelgeisiol gyda'i gynigion i fuddsoddi mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Ochr yn ochr â hyn, gan ddefnyddio data’r CYBLD, rhagolygon ysgolion, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth am enedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, bydd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yr ALl yn parhau i gynnal ymarfer mapio blynyddol o bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Caiff y canfyddiadau yma eu dadansoddi. Os oes cynnydd neu ostyngiad parhaus ac amlwg o ran niferoedd y dysgwyr mewn dalgylch ysgol benodol, caiff ystyriaeth ei rhoi i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas â nifer y lleoedd, a hynny drwy ddefnyddio’r dulliau mwyaf priodol ac addas i’r ysgol benodol honno.

Yn ogystal â hyn, os yw’r ALl wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio cyllid Grant Cymorth Trochi’r Gymraeg Llywodraeth Cymru, byddai wedi treialu creu dosbarthiadau cymorth trochi’r Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid neu’r dysgwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol mewn dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â threialu model peripatetig o ran cymorth trochi’r Gymraeg ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ddarostyngedig i ganlyniad y cynlluniau peilot a chymeradwyaeth gan y Cabinet, bydd darpariaeth drochi newydd wedi’i sefydlu yng nghyfnod cynnar y CSCA yma.

**DATA ALLWEDDOL**

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (ar sail rhagolygon dros dro), o'i gymharu ag Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

| **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun Strategol yma** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Ar sail Rhagolygon dros dro mis)** | | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| 2022 / 2023 | 513 | 21.5% | 513 | 21.5% |
| 2023 / 2024 | 489 | 21.5% | 533 | 23.4% |
| 2024 / 2025 | 468 | 21.7% | 554 | 25.6% |
| 2025 / 2026 | 480 | 21.5% | 575 | 25.8% |
| 2026 / 2027 | 487 | 21.6% | 598 | 26.2% |
| 2027 / 2028 | 488 | 21.6% | 621 | 27.5% |
| 2028 / 2029 | 488 | 20.9% | 645 | 28.6% |
| 2029 / 2030 | 488 | 20.6% | 671 | 29.7% |
| 2030 / 2031 | 488 | 20.3% | 697 | 30.9% |
| 2031 / 2032 | 488 | 21.6% | 724 | 32.0% |

**DEILLIANT 3: MWY O BLANT YN PARHAU I WELLA EU SGILIAU CYMRAEG WRTH DROSGLWYDDO O UN CYFNOD O'U HADDYSG STATUDOL I UN ARALL**

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, mae'r data yn Atodiad Tri yn dangos bod yr holl blant a adawodd Cylchoedd Meithrin wedi pontio i ysgolion cynradd. Pontiodd 57.3% (284) o blant i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Cynyddodd y ganran yma i 67.9% (343) o blant yn pontio i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Fodd bynnag, mae cyfle i wella ar hyn o sefyllfa. Mae’r agwedd hon yn gofyn am ddadansoddiad pellach i lywio gwelliannau strategol a bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu yn ein cynllun gweithredu.

Mae'n ymddangos nad yw'r cyfraddau pontio ar gyfer dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn destun pryder.

Mae’r gostyngiad yn nifer y dysgwyr oedran ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng Cyfnod Allweddol Pedwar a Chyfnod Allweddol Pump hefyd wedi’i adlewyrchu ar gyfer dysgwyr uwchradd cyfrwng Saesneg o’r un oedran, fel mae’r tabl isod yn ei nodi.

| **Cyfraddau pontio dysgwyr rhwng Cyfnod Allweddol Pedwar a Chyfnod Allweddol Pump ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg dros y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** |
| **Cyfrwng Cymraeg** | 53.5% | 55.9% | 48.5% |
| **Cyfrwng Saesneg** | 42.6% | 44.0% | 45.4% |

Ysgol Gyfun Rhydywaun yn ardal Cwm Cynon yw'r unig opsiwn ar gyfer dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd does dim ysgol o'r fath yn eu Bwrdeistref Sirol nhw. Felly mae'r dysgwyr hynny'n mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun. Wrth lunio'u Cynllun Datblygu Lleol newydd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i barhau i asesu'r galw am ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn eu Bwrdeistref Sirol. Mae'r ALl wedi cynnal gwaith cynllunio trawsffiniol gyda'n holl Awdurdodau Lleol cyfagos er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, a bydd yn parhau â'r gwaith yma.

Yn yr un modd, Ysgol Llanhari yn ardal De Cwm Taf yw'r opsiwn agosaf i rai dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn oherwydd bod yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym Maesteg. Yn hynny o beth, mae rhai dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn mynychu Ysgol Llanhari. Byddwn ni’n mynd ati i ddadansoddi cyfraddau trosglwyddo cam allweddol 4/5 yn fanwl gyda'r nod o wella’r niferoedd sy’n trosglwyddo i addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a / neu sefydliadau addysg bellach lle mae hyn yn briodol.

Y gobaith yw bydd Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yn ddogfen fyw erbyn 2022 yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol. Bydd unrhyw alw am dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw bwysau a allai ddeillio o unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn RhCT, yn cael eu nodi yn rhan o’r Cynllun Datblygu Lleol. Mae’r galw am addysg yn y dyfodol yn debygol o fod yn sylweddol mewn rhai ardaloedd o’r Sir a bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â datblygwyr i sicrhau bod y seilwaith mewn cymunedau lleol yn ddigonol ar gyfer mynd i’r afael â’r angen ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

- Mae angen inni weithio gyda phartneriaid i gael gafael ar ddata dibynadwy ar nifer posibl y plant sy'n gadael Cylchoedd Meithrin i fynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, mae'r data ar gyfer y pedair blynedd academaidd flaenorol yn dangos bod canran y plant sy'n gadael Cylchoedd

DRAFT

Meithrin i fynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Wedi dweud hynny, mae angen gwelliant a chamau ymyrryd cadarnhao o hydl.

- Mae'n ymddangos nad yw amcangyfrif arfaethedig y cyfraddau pontio ar gyfer dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn destun pryder. Ond byddai gwelliant pellach mewn cyfraddau trosglwyddo o gyfnod allweddol 4 a 5 yn fuddiol. Byddai hefyd yn bwysig ein bod ni'n deall yn llawn i ble mae dysgwyr sy'n gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg yn mynd a gweld a ydyn nhw'n dilyn llwybrau addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau addysg bellach a phrifysgolion. Bydd casglu a dadansoddi'r data yma'n cynorthwyo ni i lywio datblygiadau strategol allweddol yn y cynllun gweithredu blynyddol gyda'r nod o wella cyfraddau trosglwyddo cyfnodau allweddol 4 a 5 yn y sector yma. Bydd cyngor ac arweiniad gyrfaoedd gwell yn bwysig wrth sicrhau bod dysgwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol a'u bod yn gwbl effro o'r opsiynau cyfrwng Cymraeg sy'n agored iddyn nhw.

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, rhaid i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n ffurfio Grŵp Strategol y Cynllun Strategol weithio ar y cyd.

Er bod canran y plant sy'n gadael Cylchoedd Meithrin sy'n pontio i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, mae canran fawr o blant yn mynychu Cylchoedd Meithrin o hyd sydd ddim yn pontio i ysgolion cynradd Cymraeg. Gall hyn fod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad y Cylchoedd Meithrin a pha mor agos maen nhw i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith y bydd angen sicrhau bod lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn hyrwyddo mynediad ehangach i addysg cyfrwng Cymraeg. Er mwyn deall y rhesymau dros y cyfraddau trosglwyddo annigonol o leoliadau meithrin i ysgolion cynradd Cymraeg yn llawn bydd swyddog graddedig yn ymgymryd â gwaith a dadansoddiad manwl pellach, a bydd camau adfer yn cael eu nodi a'u gweithredu i sicrhau cyfraddau trosglwyddo gwell yn y sector hwn.

Mae'r ALl yn cydnabod bod datblygu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn holl bwysig er mwyn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Trwy fuddsoddi mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, mae'r ALl yn cefnogi rhieni/gwarcheidwaid i barhau â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn ddi-dor**,** gan sicrhau eu bod ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol. Bydd yr ALl yn parhau i weithio ar y cyd â Mudiad Meithrin i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i barhau â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddwn ni'n parhau i fonitro cyfraddau pontio dysgwyr wrth bontio rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal, er nad yw'n ymddangos bod hyn yn destun pryder.

Mae Rhaglen Band B uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21fed ganrif y Cyngor yn cynnwys ystod o brosiectau gwerth cyfanswm o £160 miliwn, gan gynnwys

DRAFT

nifer o brosiectau sy’n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol, bydd y Rhaglen yma wedi ei chwblhau. Bydd hyn, ochr yn ochr â chyllid sy'n dod yn uniongyrchol gan y Cyngor, yn gwireddu:

- Diwygio cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol gynradd dwy iaith i ysgol gynradd Gymraeg (yn dilyn agor Ysgol Gynradd Hirwaun). Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Penderyn cael ei ymestyn hefyd.
- Darparu estyniad i Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.
- Darparu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.
- Codi ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ardal Rhydfelen, i ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd a'r dysgwyr cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu Ysgol Gynradd Heol y Celyn.
- Cyflwyno ysgol Gymraeg ‘trwodd’ newydd ar gyfer ardal Cwm Rhondda.
- Darparu ysgol gynradd ddwy iaith newydd sy'n estyniad i ysgol gynradd ddwy iaith Dolau, a hynny'n rhan o ddatblygiad tai sylweddol.
- Codi blociau addysgu newydd a gwella cyfleusterau ar gyfer yr ysgol a'r gymuned yn sylweddol yn Ysgol Gyfun Llanhari; a
- Codi bloc addysgu, cyfleusterau chwaraeon a chymunedol newydd yn Ysgol Gyfun Rhyd-y-waun

Yn ogystal â hyn, bydd yr ALl yn parhau i ddarparu mentrau i gefnogi cyfraddau pontio dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ymhlith y rhain, mae:

- Dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yn treulio amser yn eu hysgol uwchradd newydd cyn dechrau eu tymor cyntaf yno
- Athrawon o ysgolion uwchradd yn mynychu ysgolion cynradd i ddarparu sesiynau gweithgareddau
- Urdd Gobaith Cymru (yr Urdd) yn cynorthwyo ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i drefnu teithiau preswyl i Langrannog yn eu clwstwr ysgolion uwchradd

Ochr yn ochr â hyn, bydd yr ALl yn gweithio gyda rhieni/gwarcheidwaid i hyrwyddo llwybr parhaus dilyniant ieithyddol eu plentyn er mwyn sicrhau eu bod nhw i gyd yn cael eu cefnogi yn y cyfnod pontio rhwng pob Cyfnod Allweddol a bod dysgwyr yn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr ALl yn gweithio i sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â rhieni/gwarcheidwaid yn effro i'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg a llwybr parhaus o ran dilyniant ieithyddol fel bod modd iddyn nhw ateb unrhyw gwestiynau a allai godi.

Gan ddefnyddio'r Model Pensaernïaeth Dewis[18], bydd yr ALl yn cynnal adolygiad o'i broses derbyn ysgolion ar-lein. Mae'r Model Pensaernïaeth Dewis yn fersiwn symlach o'r Model Mindspace[19] a gafodd ei gomisiynu gan Swyddfa Cabinet y DU yn 2009 i ddeall sut y gallai theori ymddygiad helpu i sicrhau canlyniadau gwell. Mewn perthynas ag annog pobl i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, byddai modd defnyddio'r Model

[18] Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2021
[19] Swyddfa’r Cabinet, Llywodraeth y Deyrnas Unedig – Model Mindspace - 2009

Pensaernïaeth Dewis i sicrhau bod y dewisiadau i rieni/gwarcheidwaid wrth gwblhau cais derbyn i ysgolion ar-lein ar gyfer plentyn yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol.

**BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?**

Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd buddsoddiad yng ngwaith datblygu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, a hynny trwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, wedi'u cwblhau.

Pan fydd cyllid ychwanegol ar gael, bydd yr ALl yn uchelgeisiol gyda'i gynigion i fuddsoddi mewn darpariaeth gofal plant a lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Mae'r ALl yn cydnabod bod datblygu lleoliadau gofal a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn holl bwysig er mwyn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r buddsoddiad yma'n cefnogi rhieni/gwarcheidwaid i barhau'n ddi-dor â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg**,** gan sicrhau eu bod ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol. Bydd yr ALl yn parhau i weithio ar y cyd â Mudiad Meithrin i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i barhau â thaith addysg statudol eu plentyn trwy addysg cyfrwng Cymraeg. Mae sicrhau cyfraddau trosglwyddo gwell o gylchoedd meithrin yn hanfodol os ydyn ni am gyrraedd ein targedau uchelgeisiol.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yr ALl yn parhau i fonitro parhaus y cyfraddau pontio dysgwyr ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a gweithio gydag ysgolion i wella cyfraddau cadw dysgwyr mewn addysg ôl-16.

Bydd yr ALl yn parhau i ddarparu mentrau i gefnogi cyfraddau pontio dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ALl hefyd yn parhau i fynd ati'n weithredol i weithio ar y cyd â rhieni/gwarcheidwaid i hyrwyddo llwybr parhaus dilyniant ieithyddol i'w plentyn er mwyn sicrhau eu bod nhw i gyd yn cael eu cefnogi yn y cyfnod pontio rhwng pob Cyfnod Allweddol a bod dysgwyr yn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, bydd yr ALl yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â rhieni/gwarcheidwaid yn effro i'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg a llwybr parhaus dilyniant ieithyddol fel bod modd iddyn nhw ateb unrhyw gwestiynau a allai godi. Byddai cael dealltwriaeth lawn o lwybrau dilyniant ieithyddol dysgwyr o'r sector cyfrwng Cymraeg i golegau addysg bellach ac i brifysgolion lle bo hynny'n berthnasol yn ddefnyddiol wrth ddeall y cyfraddau dilyniant i addysg bellach cyfrwng Cymraeg ar ôl gadael addysg statudol.

Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd yr ALl wedi adolygu'i broses derbyn i ysgolion ar-lein, ac wedi'i rhoi ar waith, gan ddefnyddio'r Model Pensaernïaeth Dewis er mwyn helpu i annog pobl i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod y dewisiadau i rieni/gwarcheidwaid wrth gwblhau cais derbyn i ysgolion ar-lein ar gyfer plentyn yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol.

## DATA ALLWEDDOL

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu amcangyfrif arfaethedig canran y dysgwyr a allai bontio rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y Cynllun Strategol yma. Mae'n seiliedig ar ragolygon dros dro.

| **Amcangyfrif arfaethedig canran y dysgwyr a allai bontio rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Pontio** | | | |
| | **Y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol Dau** | **Cyfnod Allweddol Dau i Gyfnod Allweddol Tri*** | **Cyfnod Allweddol Tri i Gyfnod Allweddol Pedwar** | **Cyfnod Allweddol Pedwar i Gyfnod Allweddol Pump** |
| | **%** | **%** | **%** | **%** |
| 2022 / 2023 | 96.1% | 111.3% | 98.3% | 54.8% |
| 2023 / 2024 | 97.1% | 113.9% | 98.3% | 55.1% |
| 2024 / 2025 | 97.4% | 116.4% | 98.3% | 54.5% |
| 2025 / 2026 | 97.5% | 116.9% | 98.3% | 54.6% |
| 2026 / 2027 | 97.6% | 111.9% | 98.3% | 54.1% |
| 2027 / 2028 | 97.2% | 111.9% | 98.4% | 54% |
| 2028 / 2029 | 97.2% | 112% | 98.3% | 54.1% |
| 2029 / 2030 | 97.2% | 111.9% | 98.4% | 54.2% |
| 2030 / 2031 | 97.2% | 111.9% | 98.4% | 54.2% |
| 2031 / 2032 | 97.2% | 111.9% | 98.4 % | 54.2% |

**Sylwch – mae'r ganran yma'n cynnwys dysgwyr sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n byw y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol (Ysgol Llanhari – dysgwyr oedran uwchradd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac Ysgol Gyfun Rhydywaun – dysgwyr oedran uwchradd sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful)*

## <u>DEILLIANT 4: MWY O DDYSGWYR YN ASTUDIO AR GYFER CYMWYSTERAU CYMRAEG (FEL PWNC) A PHYNCIAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG</u>

## Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed a dwy ysgol uwchradd ar gyfer dysgwyr 11 i 19 oed. Maen nhw wedi'u dosbarthu yn dda ar draws Rhondda, Cynon a Thaf-elái ac yn hygyrch oherwydd polisi trafnidiaeth hael y Cyngor sy'n fwy na'r gofyniad statudol.

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y dysgwyr Blwyddyn Deg sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu.

DRAFT

Mae nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yr ALl. Maen nhw'n defnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae unrhyw gynnydd mewn poblogaethau dysgwyr, yn enwedig o fewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn cael ei fonitro'n ofalus. Os yw'r cynnydd yn glir ac yn cael ei gynnal o fewn dalgylch ysgol benodol, mae cynyddu nifer y lleoedd angenrheidiol yn cael ei ystyried yn y ffordd sydd fwyaf priodol ac sydd fwyaf addas i'r ysgol benodol honno. Yn flynyddol, mae'n ofynnol i'r ALl gyflwyno Gwybodaeth Cynllunio Lleoedd Ysgol i Lywodraeth Cymru. Mae'n manylu ar nifer y lleoedd ym mhob ysgol, nifer y dysgwyr ar y gofrestr ac amcangyfrif arfaethedig nifer y dysgwyr. Caiff gwaith blaengynllunio manwl ei gynnal trwy gymharu nifer y lleoedd ym mhob ysgol ac amcangyfrif arfaethedig nifer y dysgwyr.

Ar hyn o bryd mae lleoedd dros ben yn y mwyafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn seiliedig ar ddata CYBLD 2020/21, roedd 21.2% o leoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Gweler Atodiad Pedwar am ragor o fanylion.

Serch hynny, mae yna ychydig o ysgolion uwchradd lle mae angen rhagor o leoedd, felly mae camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion yma.

Mae'r ALl yn parhau i ddarparu a chefnogi ei raglen fuddsoddi strategol hirdymor i greu amgylcheddau ysgolion sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ac yn rhoi'r ddarpariaeth ddysgu a'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifainc a'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen fuddsoddi strategol hirdymor yma wedi'i chefnogi gan gyllid yr ALl a Llywodraeth Cymru gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Grant Cyfalaf Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r $21^{ain}$ Ganrif
- Grant Hybiau Cymunedol
- Grant Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg

Bydd Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau’r $21^{ain}$ Ganrif Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £2.3 biliwn mewn seilwaith ysgolion a cholegau ledled Cymru. Un o amcanion buddsoddi allweddol Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau’r $21^{ain}$ Ganrif Llywodraeth Cymru yw darparu seilwaith addysg effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am leoedd i ddysgwyr erbyn 2024. Yn fwy penodol, i ddarparu'r nifer cywir o leoedd i ddysgwyr er mwyn cyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau’r $21^{ain}$ Ganrif yr ALl yn cynnwys ystod o brosiectau, gan gynnwys nifer o brosiectau sy’n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae buddsoddiad wedi bod mewn nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd flaenorol, hyd at a chan gynnwys y blynyddoedd 2019/20. Mae hyn wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac wedi creu gwell adeiladau a dosbarthiadau i ddysgwyr. Cafodd hyn ei gyflawni trwy Raglen Gyfalaf yr ALl sy'n cynnwys cyfuniad o waith adnewyddu, ailfodelu, dymchwel ac adeiladu adeiladau newydd. Yn ystod yr un cyfnod, mae Rhaglen Gwaith Cyfalaf

Mân wedi'i Gynllunio'r ALl, sy'n cynnwys rhaglen barhaus o fuddsoddi mewn ysgolion, wedi buddsoddi tua £3.5 miliwn mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o StatsCymru. Mae'n amlinellu cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith), a'r rheiny heb eu cofrestru am y naill na'r llall, mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20.

| **Cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith), a'r rheiny heb eu cofrestru am y naill na'r llall, mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Cymraeg (Iaith gyntaf)** | 17.0% | 17.0% | 18.0% |
| **Cymraeg (Ail iaith)** | 45.0% | 59.0% | 63.0% |
| **Heb eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg** | 34.0% | 24.0% | 19.0% |

Mae'r data'n nodi canran gynyddol o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) ar gyfer y tair blwyddyn academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20. Yn ystod yr un cyfnod, mae canran y dysgwyr Blwyddyn 11 heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall wedi gostwng yn sylweddol.

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o StatsCymru. Mae'n amlinellu cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 wedi'u cofrestru ar gyfer Cymraeg Safon UG a Safon Uwch (iaith gyntaf neu ail iaith) mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20.

| **Cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 wedi'u cofrestru ar gyfer Cymraeg Safon UG a Safon Uwch (iaith gyntaf neu ail iaith) mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Cymraeg (Iaith gyntaf neu ail iaith)** | 4.2% | 3.7% | I'w gadarnhau |

Mae'r data'n nodi gostyngiad o ran canran y dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 wedi'u cofrestru ar gyfer Cymraeg Safon UG neu Safon Uwch (iaith gyntaf neu ail iaith) ar gyfer y ddwy flynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2018/19. Dydy'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 ddim ar gael ar hyn o bryd.

Yn ystod haf 2018, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i gynnal cynllun peilot Rhaglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby mewn ysgolion uwchradd. Mae'r Rhaglen yn cefnogi ysgolion uwchradd i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed wrth baratoi ar gyfer y byd gwaith, hyfforddiant ac addysg bellach ac mae wedi'i seilio ar wyth Meincnod Gyrfaoedd Da Gatsby. Cymerodd pob ysgol

uwchradd ran yn y cynllun ac yn y broses o werthuso'r[20] cynllun peilot, cafodd effeithiau cadarnhaol eu cydnabod a chafodd nifer o argymhellion eu datblygu'n gynllun gweithredu. Mae'r ALl wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith am ddwy flynedd arall er mwyn datblygu Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby ymhellach ym mhob ysgol uwchradd.

Gan adeiladu ar effeithiau cadarnhaol y Rhaglen, mae'r ALl wedi datblygu Model Mentora Gatsby a Mwy ymhellach. Mae Model Mentora Gatsby a Mwy yn estyniad o Raglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby sy'n gweithio gydag ysgolion uwchradd i gefnogi dysgwyr sy'n tangyflawni neu sy'n wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

- Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng dysgwyr a allai fynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn ystod y pum mlynedd academaidd sydd i ddod
- Yn ôl y rhagolygon, mae'r lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn debygol o gynyddu i 24.1% yn ystod y pum mlynedd academaidd sydd i ddod
- Yn seiliedig ar ragolygon dros dro, rydyn ni'n rhagweld y bydd nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn Deg a fydd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pum mlynedd academaidd gyntaf y Cynllun Strategol yma'n gostwng
- Bydd dealltwriaeth lawn o gynnig y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg ar draws pob ysgol uwchradd ac yng Ngholeg y Cymoedd yn cael ei chasglu a bydd cyfleoedd ar gyfer trefniadau cydweithredu'n cael eu cryfhau'n sylweddol i sicrhau cynnig cwricwlwm cydweithredol lleol eang a chytbwys. Bydd hyn yn rhan o'r cynllun gweithredu cysylltiedig

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, rhaid i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n rhan o Grŵp Strategol y Cynllun fynd ati i newid cyfeiriad y rhagolwg yma.

Gan ddefnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgolion, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth am enedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, bydd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yr ALl yn parhau i gynnal ymarfer mapio blynyddol o bob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Caiff y canfyddiadau yma eu dadansoddi. Os oes cynnydd neu ostyngiad parhaus ac amlwg mewn dalgylch ysgol benodol, caiff ystyriaeth ei rhoi i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas â nifer y lleoedd, a hynny drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol ac addas i'r ysgol benodol honno.

Mae yna ychydig o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lle mae'r galw yn uchel ac o'r herwydd mae angen rhagor o leoedd. Yn yr ysgolion uwchradd yma, mae camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, neu mae'r camau eisoes ar waith. Mae Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl yn

[20] Cynllun Peilot Meincnodau Gatsby: Gwerthusiad Dros Dro - Ionawr 2021

cynnwys ystod o brosiectau, gan gynnwys nifer o brosiectau sy’n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol yma, bydd y Rhaglen yma wedi'i chwblhau. Bydd hyn, ochr yn ochr â chyllid sy'n dod yn uniongyrchol gan yr ALl, yn cyflawni:

- Ysgol Gyfun Rhydywaun – Bydd y buddsoddiad yma'n creu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, gwell ac estynedig ynghyd â chyfleuster chwaraeon newydd i ategu'r cae chwaraeon 3G a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar. Bydd hefyd yn darparu 187 o leoedd i ddysgwyr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith ym mis Medi 2022. Bydd yr ychwanegiadau yma'n darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i Ysgol Gyfun Rhydywaun a'r gymuned leol, gan gynyddu cyfleoedd i'r gymuned ehangach gymryd rhan mewn gweithgareddau yno
- Ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg i ardal Cwm Rhondda – Bydd ymgynghoriad ar ddatblygu’r ysgol hon yn cael ei chynnal
- Ysgol Llanhari – Bydd elfen ddatblygu dyluniad gwaith gwella ar gyfer yr ysgol hon yn cael ei gynnal

Bydd y prosiectau yma'n creu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr, gan gynyddu nifer y lleoedd a fydd ar gael mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yng ngoleuni'r capasiti dros ben yn y sector ysgolion uwchradd, mae digon o leoedd ar gyfer twf yn y niferoedd a fydd yn gysylltiedig â'r cynllun hwn.

Mae pob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gweithio ar y cyd, yn ogystal â gyda darparwyr eraill, gan gynnwys Coleg Y Cymoedd, i ddarparu addysg ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Serch hynny, mae'n anodd gwneud hyn oherwydd ble maen nhw yn ddaearyddol. Mae angen archwilio ymhellach opsiynau i gynnal ac ehangu darpariaeth addysg TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid yng Nghonsortiwm Canolbarth y De i ehangu datblygiad sgiliau ail iaith dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Bydd yr opsiynau i’w harchwilio yn cynnwys rhith-gydweithredu ar lefel leol neu ranbarthol neu gymryd rhan yn y cynllun E-sgol, a gafodd ei lansio gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2018. Roedd y cynllun E-sgol yn rhan o Gynllun Gweithredu Addysg Wledig Llywodraeth Cymru – 2018[21], ac mae'n darparu ystod ehangach o bynciau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch i ddysgwyr trwy ddulliau dysgu ar-lein, a hynny trwy Hwb ar Microsoft Teams. Byddwn ni’n annog cyfraniad gweithredol yn y cyfleoedd sy’n cael eu cynnig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r cynllun cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc (dan arweiniad Llywodraeth Cymru) i sicrhau ein bod ni’n creu a chynnal diddordeb dysgwyr yn y Gymraeg fel pwnc. Dylai'r gwaith partneriaeth hwn hefyd ymestyn i hyrwyddo llwybrau astudio yn y sector Addysg Uwch. Ar ben hynny, byddwn ni’n annog cynrychiolaeth ehangach o'r pedair ysgol glwstwr ar draws yr awdurdod lleol i fod yn rhan o’r grŵp cynllunio strategol i sicrhau cynllunio strategol effeithiol.

Trwy raglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby a Model Mentora Gatsby a Mwy, bydd yr ALl yn cefnogi ysgolion uwchradd i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed wrth eu paratoi ar gyfer y byd gwaith, hyfforddiant ac addysg

[21] Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Addysg Wledig - 2018

bellach. Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal i greu system sy'n cefnogi a hyfforddi Arweinwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion uwchradd i hwyluso ymgorffori Meincnod Pedwar – Cysylltu Dysgu'r Cwricwlwm â Gyrfaoedd yng Nghwricwlwm i Gymru – 2022.

Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm De Cymru wedi cynnal gwaith ymgysylltu sylweddol â Phenaethiaid ysgolion uwchradd Cymraeg ledled y Bwrdeistrefi Sirol sy'n rhan o'r Consortiwm, Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r gwahaniaeth sylweddol o ran nifer y cymwysterau, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol, sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ogystal â hyn, mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De wedi darparu £30,000 i Gyda'n Gilydd (Sefydliad Penaethiaid Uwchradd Cyfrwng Cymraeg) yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, a hynny er mwyn datblygu darpariaeth bwrpasol. Byddai'n bosibl i Gyda'n Gilydd ddefnyddio'r cyllid yma tuag at greu cymwysterau sy'n fwy hygyrch, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De yn darparu £10,000 ychwanegol i Gyda'n Gilydd fel bod modd iddyn nhw weithio ar y cyd â CBAC i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg Lefel 3.

**BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?**

Mae'r buddsoddiad mewn nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd flaenorol, hyd at a chan gynnwys y blynyddoedd 2019/20 trwy Raglen Gyfalaf yr ALl wedi darparu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ynghyd â Rhaglen Gwaith Cyfalaf Mân wedi'i Gynllunio'r ALl, wedi creu gwell ystafelloedd dosbarth i ddysgwyr. Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd y buddsoddiad yma wedi cynyddu ymhellach. Yn ogystal â hyn, bydd Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yr ALl, ynghyd â chyllid sydd wedi dod yn uniongyrchol gan yr ALl, wedi'i chwblhau. Bydd hyn wedi darparu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg well ac estynedig a bydd dwy ysgol uwchradd arall naill ai wedi'u hadnewyddu neu wedi'u hadleoli i fod yn Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd y prosiectau yma wedi creu lleoedd ychwanegol i ddysgwyr, gan gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, rydyn ni'n rhagweld y bydd cyllid ychwanegol ar gael i fuddsoddi ymhellach mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Pan fydd cyllid ychwanegol ar gael, bydd yr ALl yn uchelgeisiol gyda'i gynigion i fuddsoddi mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Ochr yn ochr â hyn, gan ddefnyddio data'r CYBLD, rhagolygon ysgolion, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth am enedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, bydd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yr ALl yn parhau i gynnal ymarfer mapio blynyddol o bob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Caiff y canfyddiadau yma eu dadansoddi. Os oes cynnydd neu ostyngiad parhaus ac amlwg o ran niferoedd y dysgwyr mewn dalgylch ysgol benodol, caiff ystyriaeth ei rhoi i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas â nifer y

lleoedd, a hynny drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol ac addas i'r ysgol benodol honno.

Mae pob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gweithio ar y cyd, yn ogystal â gyda darparwyr eraill, gan gynnwys Coleg Y Cymoedd, i ddarparu addysg ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, mae'r ALl yn obeithiol y bydd y trefniadau gweithio ar y cyd yma'n parhau ac yn cael eu hehangu gydag opsiynau fel E-sgol yn cael eu harchwilio ymhellach i gynnal ac ehangu darpariaeth TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

Yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, mae'r ALl yn obeithiol y bydd rhaglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby a Model Mentora Gatsby a Mwy wedi datblygu ystod eang o lwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed wrth eu paratoi ar gyfer y byd gwaith, hyfforddiant ac ymhellach addysg.

**DATA ALLWEDDOL**

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn Deg a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (ar sail rhagolygon dros dro), o'i gymharu ag amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn Deg a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma. Er y byddai'n cymryd deng mlynedd i effaith cynnydd yn nifer y dysgwyr Blwyddyn Un gael effaith ar nifer y dysgwyr Blwyddyn Deg, mae'r data yma wedi'i gynnwys er mwyn cymharu.

| **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn Deg sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun Strategol yma** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn Deg a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg (ar sail rhagolygon dros dro mis)** | | **Amcangyfrif arfaethedig nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn Deg a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| 2022 / 2023 | 557 | 19.4% | 577 | 20.1% |
| 2023 / 2024 | 545 | 18.6% | 595 | 20.3% |
| 2024 / 2025 | 517 | 17.9% | 615 | 21.3% |
| 2025 / 2026 | 538 | 17.6% | 630 | 20.6% |
| 2026 / 2027 | 521 | 17.8% | 640 | 21.9% |
| 2027 / 2028 | 519 | 18.2% | 660 | 23.1% |
| 2028 / 2029 | 487 | 17.4% | 675 | 24.1% |
| 2029 / 2030 | 524 | 18.7% | 690 | 24.6% |
| 2030 / 2031 | 502 | 18.2% | 705 | 25.6% |
| 2031 / 2032 | 518 | 20.3% | 720 | 28.2% |

## DEILLIANT 5: MWY O GYFLEOEDD I DDYSGWYR DDEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN CYDDESTUNAU GWAHANOL YN YR YSGOL

### Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae amgylchedd yr ysgol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder ac yn erydu sgiliau iaith. O'r herwydd, dylid cefnogi ac annog dysgwyr, ynghyd â rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgol gynradd ac uwchradd er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd hyn ei wneud trwy'r Siarter Iaith, a gafodd ei datblygu gan Gyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â'r Consortiwm a'r Urdd. Ymhlith y rhain, mae:

- Gweithredu'r Siarter Iaith ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg
- Gweithredu rhaglen 'Cymraeg Campus' mewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'i threialu mewn dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg
- Cyhoeddi pecyn cymorth i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ei ddefnyddio i wreiddio defnydd dysgwyr o'r Gymraeg
- Cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg
- Cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys trwy brosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd

Ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr yn yr ysgol a'r tu hwnt. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau bod dysgwyr ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob dysgwr ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022.

Hyd yma, mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn gwobr efydd y Siarter Iaith. Mae wyth ysgol gynradd Gymraeg wedi derbyn y wobr arian, ac mae 18 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn gwobr efydd 'Cymraeg Campus'. Hyd yma, mae pob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gweithio tuag at ennill gwobr efydd y Siarter Iaith, ac mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn rhan o raglen beilot 'Cymraeg Campus'.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[22] yn ei gwneud yn ofynnol i'r ALl gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd y strategaeth bum

[22] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

mlynedd gyntaf, Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT[23], ei chymeradwyo yn 2016. Roedd yn amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei hoes, a'i gynyddu. Mae’r strategaeth bum mlynedd gyntaf bellach wedi dod i ben, ac mae’r ALl wrthi’n cynllunio strategaeth bum mlynedd newydd. Wrth ddatblygu’r Cynllun Strategol yma, rydyn ni wedi cymryd Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT i ystyriaeth er mwyn annog a hwyluso twf tymor hir mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae’r ALl wedi sicrhau bod y Cynllun Strategol wedi'i alinio â'r Strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Caiff dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg eu hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr ALl yn cyflogi swyddogion y mae eu sgiliau, eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn cefnogi datblygiad cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Caiff dysgwyr ystod o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol mewn lleoliadau yn y gymuned, gan gynnwys:

- Cyflwyniad dramatig yn un o theatrau'r ALl ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol Un a Dau
- Cymryd rhan mewn gweithdai'r celfyddydau perfformio yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Ysgol Garth Olwg ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol Dau, Tri a Phedwar
- Cyd-gynhyrchu a chyflwyno cyflwyniad dramatig yn un o theatrau'r ALl ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol Tri a Phedwar

Gan fod Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr ALl yn gleient Portffolio Celfyddydol Cymru ac yn derbyn cyllid refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'n ofynnol iddyn nhw fod â'u Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain sy'n cefnogi cyflwyno Strategaeth Hybu'r Iaith RhCT.

Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr ALl yn cyflogi Swyddogion Ymgysylltu ag Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg. Mae un ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, a'u rôl yw darparu ystod o weithgareddau i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn normaleiddio'r Gymraeg ac yn annog ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r Swyddogion Ymgysylltu ag Ieuenctid yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol, fel:

- Cynnig 'gweithgareddau cadarnhaol' bum niwrnod yr wythnos, ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben, trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnig 'darpariaeth estynedig' 2 noson yr wythnos trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth estynedig yn cwmpasu'r pedwar maes canlynol:
    - Cyflogaeth, addysg a hyfforddiant
    - Cyngor ac arweiniad
    - Cyfranogi ac ymgynghori
    - Cyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliant

[23] Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT 2016

Yn ogystal â hyn, mae gyda Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr ALl Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith i arwain ar ddatblygu Fforymau Ieuenctid y Gymraeg ym mhob ysgol uwchradd. Mae disgwyl i'r Fforymau yma fwydo'u mewnbwn i Fforwm Ieuenctid y Sir i sicrhau bod digon o gynrychiolaeth o ran y Gymraeg.

Mae'r Urdd yn darparu ystod o gyfleoedd i bobl ifainc dros 17 oed ennill cyflogaeth, profiad ymarferol a chymwysterau proffesiynol, gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid i ddatblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae prentisiaethau ar gael yn rhan o’r gwasanaethau gweithgareddau awyr agored, chwaraeon, ieuenctid a chymunedol. Mae prentisiaid yn cael cyfle i ddysgu gan staff profiadol ac arwain gweithgareddau o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifainc, gan ennill cymwysterau achrededig. Bydd yr ALl yn cryfhau cysylltiadau â'r Urdd er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae rhieni/gwarcheidwaid cymwys a'r gymuned ehangach yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg i wella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae Cymunedau am Waith yn Rhaglen Bartneriaeth gan Lywodraeth Cymru rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth ym mhob un o'r 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Mae Carfannau Prosiect Cymunedau am Waith pwrpasol ar waith i ddarparu cefnogaeth i unigolion gael mynediad at gyflogaeth. Mae Cymunedau am Waith yn cynnig gweithgareddau cyn-gyflogaeth sy'n cyflwyno Cymraeg sgyrsiol i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach a chwrs 'llwybr i gyflogaeth' sy'n cynnwys sgiliau sylfaenol y Gymraeg a all arwain at gwrs Cymraeg i Oedolion.

Bydd Strategaeth Hybu’r Gymraeg y Cyngor yn annog ac yn hwyluso twf addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir trwy sicrhau bod ei thair thema allweddol o ddefnyddio iaith, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hwyluso amodau ffafriol yn cyd-fynd â gweledigaeth y CSCA. Bydd y Cyngor yn sicrhau bydd gan swyddogion sy'n arwain ar y ddwy strategaeth linellau cyfathrebu clir a chyswllt rheolaidd er mwyn egluro'r weledigaeth mewn amrywiol gyd-destunau sy'n berthnasol i wahanol adrannau'r Cyngor, ac ymhlith partneriaid yn gyffredinol yn ystod oes y strategaethau. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r gyd-ddealltwriaeth o bwrpas, a chyflawni'r strategaethau, dros eu hoes.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

Er mwyn ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymhellach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd a'r tu hwnt, mae'r ALl yn bwriadu cynyddu cyfanswm yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg sy'n derbyn gwobrau'r Siarter Iaith Gymraeg a 'Cymraeg Campus' yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol yma.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd cefnogi a hyrwyddo dysgwyr i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol yn helpu'r ALl i gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

erbyn 2050. Bydd Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr ALl a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn parhau i ddatblygu a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yr ALl yn bwriadu sefydlu perthynas strategol ag ysgolion cynradd ac uwchradd y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn eu helpu i gyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg trwy ddarpariaeth ddiwylliannol.

Bydd Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr ALl yn parhau i gynnig dewis iaith, hynny yw Cymraeg neu Saesneg, i ddysgwyr. Bydd Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd Gymraeg o hyd, yn ogystal â mewn rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg hefyd. Yn ogystal â hyn, bydd Swyddogion Ymgysylltu Ieuenctid yr ALl yn parhau i gynnig gweithgareddau ychwanegol i ddysgwyr. Bydd y Gwasanaeth yn dod o hyd i ddarparwr cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lle bynnag y bo modd, gyda'r nod o gynyddu nifer y darparwyr allanol sy'n gallu cyflwyno gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, bydd Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr ALl, Menter Iaith a'r Urdd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i greu ar y cyd ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n anrhydedd i'r Fwrdeistref Sirol gael ei chadarnhau'n gartref Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr ALl i gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 yn glir. Wrth wneud hyn, bydd cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ac i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol a'r tu hwnt.

## BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?

Un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050 yw ymgorffori defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg, wedi'i ategu gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Er mwyn cyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen cynyddu nifer y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Dylid cefnogi ac annog dysgwyr i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Erbyn diwedd oes y Cynllun Strategol yma, mae'r ALl yn disgwyl i bob ysgol gynradd ac uwchradd fod wedi cyflawni nodau'r Siarter Iaith a rhaglen 'Cymraeg Campus'. Yn ogystal â hyn, mae disgwyl y byddan nhw wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, a hynny trwy waith Carfan Gwasanaethau Diwylliannol a Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yr ALl erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

## DATA ALLWEDDOL

Er mwyn ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymhellach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac i hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd a'r tu hwnt, mae'r ALl yn bwriadu

cynyddu nifer y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

## DEILLIANT 6: CYNNYDD YN Y DDARPARIAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG I DDYSGWYR AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL ("ADY") YN UNOL Â'R DYLETSWYDDAU A BENNIR GAN Y DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

### Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae newidiadau sylweddol ar y gweill mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Cafodd Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018[24] ei chyflwyno ym mis Ionawr 2018 a'i rhoi ar waith ym mis Medi 2021. O dan y Ddeddf yma, mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn parhau i adolygu trefniadau cynnal dysgwyr ag ADY ac i ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad statudol i gymryd pob cam rhesymol i greu system sy'n cynnal dysgwyr ag ADY yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae'r Ddeddf yn cael ei chefnogi gan reoliadau newydd, gan gynnwys is-deddfwriaeth a Chod ADY statudol newydd[25].

Mae angen darpariaethau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY sylweddol sy'n cael anawsterau wrth ymdopi mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd. Mae yna ystod o ddarpariaethau arbenigol wedi'u lleoli ledled y Fwrdeistref Sirol, sy'n cynnwys:

- 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu
- 2 Uned Atgyfeirio Dysgwyr
- 4 Ysgol Arbennig

Yn ogystal â hyn, mae tua £3.4 miliwn o Gyllid Anghenion Ychwanegol ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd er mwyn sicrhau darpariaeth gadarn a chynhwysol i ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd sydd ag ADY difrifol a pharhaus.

Mae dysgwyr Cymraeg eu hiaith ag ADY sy'n profi anawsterau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ac sydd angen mwy o gefnogaeth arbenigol yn cael eu cefnogi gan garfan beripatetig arbenigol, sef Carfan Anghenion Cymhleth Cymru. Mae'r Garfan, sy'n cynnwys athro arbenigol Cymraeg ei iaith a dau Gynorthwy-ydd Cynnal Dysgu, yn darparu cefnogaeth trwy fodel cyflwyno cynhwysol ble mae dysgwyr yn cael cymorth arbenigol yn eu hysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, cefnogodd y Garfan nifer o ddysgwyr. O ddadansoddi'r data, mae'n awgrymu bod cynnydd y dysgwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Garfan yn debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg cyfatebol. Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu bod y model cynhwysol yma a gafodd ei fabwysiadu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gadarnhaol iawn.

[24] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
[25] Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

DRAFT

Mae ystod ragorol o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael eu darparu gan yr ALl. Serch hynny, yng ngoleuni gofynion y Ddeddf, pryderon ynghylch cynnydd yn nifer y gwaharddiadau a chynnydd yn nifer y ceisiadau am leoliadau Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, cafodd ei ystyried ei fod yn angenrheidiol i wella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Yn ôl y data, roedd:

- Darpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol annigonol yn y sector uwchradd
- Dim darpariaeth arbenigol gyfrinachol ar gyfer dysgwyr Cymraeg eu hiaith ag ADY

Yn hynny o beth, roedd adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan Gabinet yr ALl ar 17 Rhagfyr 2019[26] yn amlinellu cynigion ar gyfer newid a oedd yn ceisio:

- Gwella llwybr parhaus y dilyniant ieithyddol a oedd yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yng Nghyfnod Allweddol Tri a Phedwar
- Creu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg Cyfnod Allweddol Tri a Phedwar ag ADY sylweddol
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar gynigion i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg Cyfnod Allweddol Tri a Phedwar ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol trwy sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Garth Olwg

Oherwydd effaith pandemig Covid-19, aeth y cynigion uchod ddim pellach ac, o'r herwydd, ar 25 Mehefin 2020, cytunodd Cabinet[27] yr ALl i symud ymlaen gyda chynnig diwygiedig i ymestyn rhaglen beilot gynharach i ariannu ysgolion uwchradd prif ffrwd i sefydlu eu cwricwlwm amgen eu hunain ar gyfer dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. O ganlyniad i hyn, ym mis Medi 2020, cafodd cyllid ei ddarparu i sefydlu darpariaeth amgen fewnol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn yr ysgolion hynny. Bydd adroddiad newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2021/22 i ofyn am gymeradwyaeth i ailystyried sefydlu darpariaeth dosbarth cynnal/cymorth dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gartholwg. Gwnaed ymrwymiad hefyd i ystyried a oes angen ymgynghori ar sefydlu darpariaeth ADY yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd a fydd yn cael ei sefydlu yn 2024.

Roedd datblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn rhan o Gynllun Trawsnewid ADY Rhanbarthol 2020/21. Ar gyfer y blynyddoedd 2020/21, roedd y llif gwaith yng nghategori Blaenoriaeth Un, sef:

---

[26] Adroddiad y Cabinet - 17 Rhagfyr 2019 - Adolygiad o Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol Sylweddol

[27] Adroddiad y Cabinet – 25 Mehefin 2020 – Adolygiad o Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol Sylweddol

- Sicrhau bod pob Awdurdod Lleol yn datblygu arferion cyson ac yn cydweithredu'n effeithiol â phartneriaid allweddol i baratoi ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio

Roedd Blaenoriaeth Un yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Cyflwyno Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol ADY cyfrwng Cymraeg
- Datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg
- Datblygu prawf darllen cyfrwng Cymraeg safonol

Roedd camau gweithredu yng Nghynllun Trawsnewid ALN Rhanbarthol 2020/2021 yn ymwneud â pharhau i ddatblygu dull rhanbarthol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu cysondeb a rhannu arferion gorau.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol adolygu'r ddarpariaeth ADY. O'r herwydd, rhaid i bob Awdurdod Lleol:

1. Adolygu'r trefniadau yn ei ardal ar gyfer dysgwyr ag ADY.
2. Ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau'n ddigonol i ddiwallu ADY y dysgwyr.
3. Ystyried a yw'r ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol.
4. Ystyried maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael.
5. Cymryd pob cam rhesymol i unioni unrhyw drefniadau annigonol.
6. Yn ôl yr angen, ymgynghori ag unigolion priodol.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol yma, mae'r Ddeddf wedi'i hystyried. Bydd yr ALl, mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill, yn cynnal gwerthusiad manwl o ddigonolrwydd ei ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn flynyddol yn ystod y cynllun gweithredu ADY 3 blynedd statudol (2021 - 2024). Bydd hyn yn cefnogi datblygiad cynllun strategol tymor hir i ddarparu system ADY ddwyieithog lawn a galluogi'r ALl i nodi targedau tymor byr a thymor canolig i fynd i'r afael â blaenoriaethau / gofynion dybryd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddefnyddio ystod eang o ddata meintiol a gwybodaeth ansoddol er mwyn adolygu darpariaeth ADY. Mae data a gwybodaeth o'r fath i'w defnyddio yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Nifer y dysgwyr Cymraeg eu hiaith ag ADY
- Gwahanol fathau'r ADY sydd gyda dysgwyr Cymraeg eu hiaith a pha mor ddifrifol yw'r anghenion
- Deilliannau dysgwyr Cymraeg eu hiaith ag ADY
- Archwiliadau arbenigol o'r gweithlu mewn perthynas â'r gallu i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith ag ADY
- Nifer y lleoedd mewn lleoliadau arbenigol
- Unrhyw ddangosyddion cyflawniad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud ag ADY

- Unrhyw setiau data wedi'u cytuno gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Sefydliadau Addysg Bellach

Mae'r ALl wedi a pharhau i weithio ar y cyd â'r Consortiwm i sicrhau darpariaeth ADY effeithiol o ansawdd uchel i bob dysgwr, a bydd yn parhau â'r gwaith yma. Bydd yr ALl yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd wedi'u cytuno arnyn nhw i fonitro ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion arbennig/dosbarthiadau. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd y Cabinet wedi ystyried cynigion i sefydlu darpariaeth ADY yn y sectorau cynradd ac uwchradd a'u gweithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd gofynion y Ddeddf i Awdurdodau Lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu system ADY cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sicrhau y bydd monitro ac adolygu parhaus darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o gynllunio camau gweithredu, monitro, gwerthuso ac adolygu Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yr ALl. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni / cynhalwyr/gofalwyr, yn hanfodol wrth sicrhau bod darpariaeth effeithiol ar gael yn y sector cyfrwng Cymraeg.

**BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?**

Ar ddiwedd oes y Cynllun Strategol yma, bydd gyda'r ALl brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg effeithiol ac o ansawdd uchel ynghyd â gwasanaethau cynnal/cymorth ADY arbenigol yn rhan o system ADY cwbl ddwyieithog.

**<u>DEILLIANT 7: CYNNYDD YN NIFER Y STAFF ADDYSGU SY'N GALLU ADDYSGU CYMRAEG (FEL PWNC) A THRWY GYFRWNG Y GYMRAEG</u>**

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae'n holl bwysig sicrhau gweithlu lleoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar ac ysgolion digon o faint ac â gallu digonol. Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein lleoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar a’n system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu lleoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar ac ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr y Gymraeg a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar y Fwrdeistref Sirol yn elwa ar staff cymwys, medrus iawn. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers sawl blwyddyn i wella sgiliau'r gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Mae newidiadau i ofynion cymwysterau y safonau gofynnol cenedlaethol hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau gweithlu â chymwysterau addas.

Yn 2020, cyflogodd yr ALl 12,457 o bobl. Roedd 42.4% (5,290) ohonyn nhw'n gweithio mewn ysgolion. Mae'r data'n dangos bod gyda 917 (17.3%) o weithlu ysgolion sgiliau iaith Gymraeg rhugl neu weddol rugl (Sgiliau Cymraeg Lefel Tri, Pedwar a Phump).

Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion[28] (CBGY) i gasglu data ynghyd mewn ffordd newydd. Mae Swyddog Cymraeg mewn Addysg y Consortiwm yn cefnogi ysgolion i gwblhau elfen Gymraeg y CYBLD a'r CBGY yn gywir. Mae'r CBGY wedi'i gyflwyno er mwyn darparu data cynhwysfawr ar:

- Maint y gweithlu
- Demograffeg staff
- Denu a chadw staff
- Defnyddio athrawon cyflenwi
- Absenoldebau
- Y gallu ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu pwnc-benodol
- Cost tâl athrawon

Yn ystod y flwyddyn academaidd, mae data'n dangos bod gyda 39% (805) o'r gweithlu ysgolion (gan gynnwys penaethiaid, athrawon ysgol a gweithwyr cynnal dysgu ysgolion) sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl lefelau sgiliau'r iaith Gymraeg canolradd, uwch neu rugl.

Yn ystod yr un cyfnod o amser, mae’r data hefyd yn dangos bod 21.7% (448) o'r gweithlu ysgolion sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl yn addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod 6.9% (143) o'r gweithlu ysgolion sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl yn gallu addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond doedden nhw ddim yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol.

Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, rhaid i ni weithio i sicrhau ein bod yn creu gweithlu lleoliadau gofal plant a’r blynyddoedd cynnar ac ysgolion sydd â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y gwaith yma ar lefel genedlaethol. Ar hyn o bryd maen nhw'n gweithredu nifer o strategaethau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy’n cael eu hasesu ar gyfer cymwysterau Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith Uwch Gyfrannol a Safon Uwch
- Hyrwyddo llwybr i addysgu'r Gymraeg
- Parhad rhaglen Iaith Athrawon Yfory
- Datblygu llwybrau amgen i addysgu
- Dosbarthiad cyllid penodol i gonsortia addysg rhanbarthol
- Gweithredu ymgyrch farchnata ddigidol sy'n marchnata i grwpiau penodol o ddarpar athrawon
- Rhaglenni peilot ar gyfer cyrsiau pontio i athrawon â Statws Athro Cymwysedig i addysgu mewn ysgolion cynradd i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol i addysgu mewn ysgolion uwchradd
- Cynllun Sabothol y Gymraeg
- Gweithio'n agos gyda phartneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon i ddarparu'u rhaglenni achrededig

[28] Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion - 2019/20

- Gweithio'n agos gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon i ategu a chefnogi recriwtio ledled Cymru

Mae Cynllun Sabothol y Gymraeg yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'r gweithlu ysgolion cynradd ac uwchradd. Nod y Cynllun yma, sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, yw cynyddu nifer y gweithlu ysgolion sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r Cynllun yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus arbenigol ac yn cael ei gynnig ar lefelau rhuglder iaith amrywiol mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru.

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu nifer y rheiny sy'n rhan o'r gweithlu ysgolion sydd wedi'u cyflogi gan yr ALl ac sydd wedi cymryd rhan mewn cwrs Cynllun Sabothol y Gymraeg a'i gwblhau yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Nifer y rheiny sy'n rhan o'r gweithlu ysgolion sydd wedi'u cyflogi gan yr ALl ac sydd wedi cymryd rhan mewn cwrs Cynllun Sabothol y Gymraeg a'i gwblhau yn ystod y pedair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21** | |
|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Nifer** |
| 2017 / 2018 | 1 |
| 2018 / 2019 | 3 |
| 2019 / 2020 | 5 |
| 2020 / 2021 | 3* |
| *Yn ogystal â'r nifer yma, cafodd lleoedd eu cynnig i ddau athro ysgol a chynorthwyydd cynnal dysgu ond penderfynon nhw ohirio tan 2021/2022 oherwydd pandemig Covid-19. | |

Mae'r Consortiwm yn darparu dysgu proffesiynol parhaus, rhwydweithio a chyfleoedd i'r gweithlu ysgolion sydd wedi cwblhau cwrs Cynllun Sabothol y Gymraeg i rannu arferion gorau yn ysgolion y Bwrdeistrefi Sirol sy'n rhan o'r Consortiwm.

Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, sef Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Rhydywaun, wedi dod ynghyd ag Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i fod yn rhan o bartneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i gynnal rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae'n ofynnol i'r ysgolion yma ddarparu diwrnodau hyfforddi ar gyfer pob hyfforddai TAR sy'n astudio'r cwrs uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i bob hyfforddai TAR gael ei leoli yn un o'r ysgolion yma ar gyfer un o'u lleoliadau. Er mwyn eu cynorthwyo a'u cefnogi, mae pob un o'r ysgolion yma'n darparu Hyrwyddwr Ymchwil, Cydlynydd y Gymraeg, Mentor Pwnc ac Uwch Fentor. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, mae 15 o hyfforddeion TAR yn yr ysgolion yma.

Mae'r Urdd yn darparu ystod o gyfleoedd i bobl ifainc dros 17 oed ennill cyflogaeth, profiad ymarferol a chymwysterau proffesiynol, gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid i ddatblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae prentisiaethau ar gael yn y gwasanaethau gweithgareddau awyr agored, chwaraeon ac ieuenctid a chymunedol. Mae prentisiaid yn cael cyfle i ddysgu gan staff profiadol ac arwain gweithgareddau o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifainc, gan ennill cymwysterau achrededig. Bydd yr ALl yn gweithio i gryfhau cysylltiadau â'r Urdd, gan greu llwybrau amgen, ychwanegol i ddysgwyr.

DRAFT

Mae'r ALl a'r Consortiwm yn darparu nifer o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n ystyried dilyniant iaith y gweithlu ysgolion sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl. Maen nhw'n cofnodi presenoldeb yn y cyrsiau yma.

**BLE RYDYN NI'N GOBEITHIO BOD O FEWN PUM MLYNEDD GYNTAF Y CYNLLUN STRATEGOL YMA A SUT YDYN NI AM WNEUD HYNNY?**

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, rhaid i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n rhan o Grŵp Strategol y Cynllun Strategol weithio ar y cyd.

Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae'n holl bwysig sicrhau gweithlu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion digon o faint ac â gallu digonol. Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a'n system addysg yn ddibynnol ar y gweithlu. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cyngor yn cynnal asesiad strategol o swyddi gwag staff ar draws y Sir ac yn nodi'r twf gofynnol yn nifer yr athrawon a'r staff cymorth ar gyfer cyflawni'r targedau uchelgeisiol. Bydd partneriaeth agos rhwng llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid eraill yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o staff i ateb y gofynion. Bydd ymgymryd â rhaglenni penodol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mudiad Meithrin, megis Cymraeg Gwaith a Cham wrth Gam, i ysgogi twf lle mae hyn yn bosibl. Bydd hyn yn waith heriol o ystyried prinder staff yn y sector ar hyn o bryd, sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

Os yw'r ALl am gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol yma, gallai arwain at angen gweithlu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion mwy o faint. Mae trochi cynnar yn y Gymraeg a chefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid er mwyn i'w plentyn barhau'n ddi-dor â'u taith addysg statudol i addysg cyfrwng Cymraeg yn bwysig er mwyn sicrhau llwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol. Mae angen i ni sicrhau bod gweithlu digonol ar gyfer lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid i fynychu sesiynau Cylch Ti a Fi, Cymraeg i Blant, ac yna grwpiau Cylch Meithrin. Ar hyn o bryd, mae amcangyfrifon arfaethedig yn dangos bod digon o leoedd dros ben yn y sectorau addysg cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg i ni gyrraedd ein targed. Serch hynny, mae angen i ni sicrhau bod gyda'r gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion sgiliau ieithyddol cadarn a'u bod yn gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg.

Bydd yr ALl yn gweithio ar y cyd â Mudiad Meithrin i sicrhau bod gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar digonol i ddarparu rhaglen drochi gynnar yn y Gymraeg a chefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid fel bod modd i'w plentyn barhau â'u taith addysg statudol i addysg cyfrwng Cymraeg yn ddi-dor.

Bydd yr ALl a'r Consortiwm yn parhau i ddadansoddi data'r CYBLD a'r CBGY i fonitro cymhwysedd ieithyddol a nodi anghenion dysgu proffesiynol y gweithlu ysgolion. Gan ddefnyddio rhaglenni hyfforddi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n ystyried

dilyniant iaith y gweithlu ysgolion sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl, gan gynnwys Cynllun Sabothol y Gymraeg, bydd y gweithlu ysgolion yn cael ei gefnogi trwy ddysgu proffesiynol parhaus, rhwydweithio a chyfleoedd i rannu arferion gorau o fewn ysgolion y Consortiwm.

Yn ogystal â hyn, bydd yr ALl yn gweithio ar y cyd â'r Consortiwm i gynyddu gallu'r gweithlu ysgolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddan nhw hefyd yn parhau i ddatblygu a chefnogi athrawon ysgolion uwchradd sydd ddim yn arbenigwyr pwnc i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ALl a'r Consortiwm yn gweithio ar y cyd i gynyddu nifer y staff arweiniol ar bob lefel yn y sector cyfrwng Cymraeg, gan helpu unigolion i ddatblygu i fod yn brifathrawon. Mae'r Consortiwm yn darparu cyfleoedd amlwg i'r rheiny sydd am ddatblygu i fod yn staff arweiniol neu'n benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg trwy raglenni datblygu arweinyddiaeth ar wahanol lefelau, gan gynnwys y Rhaglen Darpar Benaethiaid. Dyma raglen ddatblygu flwyddyn o hyd ar gyfer staff arweiniol profiadol sy'n dymuno dod yn benaethiaid yn y dyfodol agos. Mae'r Rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ddilynol i benaethiaid hefyd ar gael. Ar hyn o bryd, mae 18 o athrawon ysgolion cynradd neu uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cyflogi gan yr ALl yn cymryd rhan yn y rhaglenni yma.

Heb anghofio'r gwaith dan ofal Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol, mae yna nifer o strategaethau y byddai modd eu rhoi ar waith ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Ymhlith y rhain, mae:

- Archwilio sut y byddai modd defnyddio Rhaglen Brentisiaethau'r ALl i ddarparu cyfleoedd i brentisiaid yn rhan o'r gweithlu ysgolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg
- Gan weithio ar y cyd â'r Urdd, bydd yr ALl yn gweithio i gryfhau cysylltiadau i greu llwybrau amgen, ychwanegol i ddysgwyr trwy ddatblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Defnyddio rhaglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby, sy'n cefnogi ysgolion uwchradd i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed wrth eu paratoi ar gyfer y byd gwaith, gan sicrhau bod y llwybr dysgu proffesiynol yn cael ei hyrwyddo'n gynnar
- Ymchwilio i lwybrau dysgu proffesiynol amgen gyda Charfan Addysg Oedolion yr ALl
- Parhau i gefnogi cyflwyno'r rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon ar y cyd â'r ysgolion uwchradd sydd wedi creu partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd
- Parhau i gefnogi dilyniant y gweithlu ysgolion presennol wrth iddyn nhw gwblhau eu rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon

**BLE RYDYN NI'N DISGWYL BOD AR DDIWEDD EIN CYNLLUN STRATEGOL?**

Er mwyn cyrraedd ein targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032, rhaid i'r ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n rhan o Grŵp Strategol y Cynllun Strategol weithio ar y cyd.

Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae'n holl bwysig sicrhau gweithlu ysgolion digon o faint ac â gallu digonol. Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am y gwaith yma ar lefel genedlaethol. Ar hyn o bryd maen nhw'n gweithredu nifer o strategaethau. Byddai modd i'r ALl a'r Consortiwm weithredu nifer o strategaethau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ochr yn ochr â'r rhain.

## MARCHNATA

Bydd defnyddio strategaethau marchnata a hyrwyddo i ddenu pobl at addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg yn dod yn rhan annatod o'r cyfraniad at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yr ALl yn defnyddio strategaethau marchnata a hyrwyddo cenedlaethol a rhanbarthol, wedi'u datblygu a'u darparu gan Lywodraeth Cymru a'r Consortiwm, yn ogystal â strategaethau marchnata a hyrwyddo lleol wedi'u datblygu gan yr ALl ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n ffurfio Grŵp Strategol y Cynllun Strategol.

Lle bo angen, bydd yr ALl yn datblygu strategaethau marchnata a hyrwyddo pwrpasol i helpu i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, bydd yr ALl yn parhau i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg trwy ddefnyddio deunyddiau marchnata strategaethau marchnata a hyrwyddo sy'n bodoli eisoes, gan ddatblygu deunyddiau marchnata newydd hefyd.

I gefnogi hyn, bydd Is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys swyddogion yr ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol. Bydd Cylch Gorchwyl yn llywio'r Is-grŵp yma a fydd yn adlewyrchu'r amcanion a'r deilliannau allweddol i'w cyflawni sy wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

## CYFLAWNI EIN GWELEDIGAETH

Yn unol â Rheoliadau 2019, bydd yr ALl yn gwneud pob ymdrech i feithrin a chynnal perthynas waith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a all gyfrannu at lwyddiant y Cynllun Strategol yma. Mae'r grwpiau a'r sefydliadau yma'n cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i:

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Coleg y Cymoedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- RhAG
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol De Cymru

- Llywodraeth Cymru

Bydd ein Grŵp Strategol yn arbennig o bwysig wrth lunio, gweithredu a gwerthuso'r Cynllun yma. Mae'r Grŵp Strategol yn cynnwys swyddogion yr ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol ac mae'n cael ei lywio gan Gylch Gorchwyl.

Ochr yn ochr â'r Grŵp Strategol ac o'r pwys mwyaf i lwyddiant y Cynllun y mae'r Is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo. Mae'r Is-grŵp yma'n yn cynnwys swyddogion yr ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol ac mae'n cael ei lywio gan Gylch Gorchwyl.

Yn ogystal â'r uchod, bydd yr ALl yn sefydlu Is-grwpiau 'gorchwyl a gorffen' sy'n cynnwys swyddogion yr ALl, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol. Bydd pob Is-grŵp yn cael y dasg o gyflawni amcanion penodol, wedi'i lywio gan y Cylch Gorchwyl.

O 2023 ymlaen, bydd yr ALl yn gweithredu dau brif ddull o adrodd ar gynnydd y Cynllun Strategol yma:

1. Cynllun Gwaith Blynyddol.
2. Adroddiad Cynnydd Blynyddol.

Nod y Cynllun Gwaith Blynyddol yw bod yn ddogfen waith ymarferol i helpu i gadw golwg ar gynnydd yn y tymor byr. Bydd y Grŵp Strategol yn ei ddefnyddio i olrhain cynnydd y Cynllun Strategol.

Mae Rheoliadau 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gosod Adroddiad Cynnydd Blynyddol, yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw, ger bron Llywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Nod yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol yw cofnodi cyflawniadau allweddol y Cynllun Strategol.

Er mai'r ALl sydd â'r cyfrifoldeb statudol am y Cynllun Strategol, mae gydag ystod o grwpiau a sefydliadau allanol rôl allweddol wrth lunio, gweithredu a gwerthuso ei gynnydd yn rheolaidd trwy gydol ei oes.

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Ddogfen Safonau Llunio Polisi. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y Safonau Llunio Polisi (Safonau 88-97) ynghylch ymgynghori, Asesiadau Effaith, ac Ymchwil Polisi. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gweithredu proses newydd i sicrhau bod penderfyniadau polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu niweidiol), y byddai'r penderfyniadau hynny'n eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a / neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r broses yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y Cyngor / Cabinet / ac Uwch Swyddogion trwy benderfyniadau dirprwyedig) yn effro i'w dyletswyddau mewn perthynas â'r Safonau wrth wneud penderfyniad yn ogystal â rhoi cyfle iddynt ystyried ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg, lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg a dangos sylw dyledus i'r amrywiol effeithiau sydd yn y Safonau. Mae'r CSCA hwn wedi bod yn destun y broses

newydd hon, a hefyd unrhyw newidiadau polisi pellach o ganlyniad i gyflawni unrhyw un o'r targedu a'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

DRAFFT

## ATODIAD UN: METHODOLEG AR GYFER GOSOD TARGEDAU

Mae Cymraeg 2050 yn nodi'r targed tymor hir cyffredinol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod yma, mae Cymraeg 2050 yn nodi trywydd tymor hir sy'n cynnwys targedau cerrig milltir. Mae'r rhain wedi'u nodi'n gamau fesul deng mlynedd. Mae targedau wedi'u gosod ar gyfer pob Awdurdod Lleol – wedi'u cyfrifo gan Lywodraeth Cymru – er mwyn sefydlu llwybr clir i gyrraedd y targed cenedlaethol.

Mae methodoleg Llywodraeth Cymru'n cynnwys defnyddio data llinell sylfaen CYBLD 2019, ac yn fwy penodol, nifer y dysgwyr Blwyddyn Un sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data pob Awdurdod Lleol wedi'i gymharu ac ar sail hyn a ffactorau eraill, gan gynnwys modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a natur ieithyddol yr Awdurdodau Lleol, maen nhw wedi'u rhoi mewn grwpiau gyda'i gilydd. Caiff ei ystyried bod y fethodoleg yma'n deg, gan ei bod yn cydnabod y gwahanol heriau sy'n wynebu pob Awdurdod Lleol.

Mae gyda phob grŵp o Awdurdodau Lleol darged penodol i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn Un sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ystod benodol o bwyntiau canran. Mae ein Hawdurdod Lleol yng Ngrŵp Tri. Mae hyn wedi'i nodi yn y tabl isod:

| **Targedau Awdurdodau Lleol Grŵp Tri** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Llinell Sylfaen 2019 (CYBLD 2019)** | | **Targed 2032** | | | |
| | | | **Ystod Is** | | **Ystod Uwch** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 359 | 17.9% | 520 | 26% | 600 | 30% |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 100 | 14% | 155 | 22% | 185 | 26% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 506 | 19.1% | 720 | 27% | 825 | 31% |
| Cyngor Abertawe | 390 | 15.4% | 590 | 23% | 695 | 27% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 221 | 14.3% | 345 | 22% | 405 | 26% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 235 | 15% | 360 | 23% | 425 | 27% |

DRAFT

Yn ôl data CYBLD 2019, cafodd rhwng 14% a 19.1% o ddysgwyr Blwyddyn Un yn yr Awdurdodau Lleol yma eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae wedi'i gynnig bod pob grŵp o Awdurdodau Lleol yn cyfrifo targed i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn Un sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ystod benodol o bwyntiau canran, yn seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol ym mhob Awdurdod Lleol. Yng Ngrŵp Tri, mae'r ystod pwyntiau canran rhwng 8% a 12%. Mae'r ystod wedi'i gosod ar gyfer pob grŵp o Awdurdodau Lleol fel bod y targed cenedlaethol o 30% o ddysgwyr Blwyddyn Un yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gyflawni yn ystod oes y Cynllun Strategol yma.

DRAFFT

## ATODIAD DAU: PROFFIL IEITHYDDOL Y FWRDEISTREF SIROL

Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

O'r 225,555 o drigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, nododd Cyfrifiad 2011[29] fod 12.3% (27,779) yn gallu siarad Cymraeg. Doedd yr 87.7% (197,776) a oedd yn weddill ddim yn gallu siarad Cymraeg. Mae modd cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan. O'r 2,955,841 o drigolion sy'n byw yng Nghymru, roedd 19% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg. Doedd yr 81% (2,393,825) a oedd yn weddill ddim yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[30] yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r rheiny sy'n ymateb i siarad Cymraeg ac yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Mae'n cael ei ddiweddaru bob chwarter, felly mae'n ffynhonnell fwy cyfredol na'r Cyfrifiad. Nododd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 fod 19.6% o'r rheiny a ymatebodd sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn o'i gymharu â chanran Cymru gyfan o 25.9% o'r rheiny a ymatebodd. Mae modd dadansoddi hyn ymhellach trwy'r data yn y tabl isod.

| **Sgiliau Cymraeg Trigolion (%)** | | |
|---|---|---|
| | **Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | **Cymru** |
| **Yn gallu darllen Cymraeg** | 19.6% | 25.9% |
| **Yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | 18.1% | 23.7% |
| **Yn gallu deall Cymraeg ar lafar** | 24.1% | 33.6% |

Mae'r data'n dangos bod canrannau Cymru gyfan ym mhob maes sgiliau'r Gymraeg yn sylweddol uwch na chanrannau'r Fwrdeistref Sirol. Serch hynny, mae'r data cyfredol yn dangos cynnydd yn nifer y trigolion sy'n gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg ar lafar ers y Cyfrifiad yn 2011.

Wrth eu holi am ba mor aml yr oedden nhw'n siarad Cymraeg, mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o ymatebion y rheiny a ymatebodd sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol o'u cymharu ag ymatebion Cymru gyfan.

| **Pa mor aml y mae trigolion yn siarad Cymraeg (%)** | | |
|---|---|---|
| | **Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | **Cymru** |
| **Yn siarad Cymraeg bob dydd** | 8.1% | 15.4% |
| **Yn siarad Cymraeg bob wythnos** | 5% | 5.1% |
| **Yn ei defnyddio'n llai aml** | 7% | 5.6% |

[29] Cyfrifiad 2011
[30] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Mae'r data'n dangos bod canran y rheiny a ymatebodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn llawer is ar gyfer y Fwrdeistref Sirol na chanran Cymru gyfan.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith[31] ar gyfer 2013 i 2015 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am rugldeb siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych lle dysgodd y rheiny a ymatebodd sy'n byw yng Nghymru siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif, sef 45%, siarad Cymraeg gartref. Dysgodd 6% siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd rhwng 2 a 10 oed a dysgodd 14% siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn 11 oed a hŷn. Dysgodd y 2% arall siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion.

DRAFFT

[31] Arolwg Defnydd Iaith 2013 i 2015

## ATODIAD TRI: DATA LLINELL SYLFAEN

## DEILLIANT 1: MWY O DDYSGWYR MEITHRIN / TAIR OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr ALl am y cyfnod rhwng 2017 a 2022. Mae'n dangos cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg cofrestredig ac anghofrestredig ochr yn ochr â nifer y lleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

| **Cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ofal plant** | | **Cyfanswm y Lleoliadau Gofal Plant Cofrestredig** | **Cyfanswm y Lleoedd** | **Cyfanswm y Lleoliadau Gofal Plant Anghofrestredig** | **Cyfanswm y Lleoedd** |
| Gwarchodwr Plant | | 117 | 564 | 0 | 0 |
| Gofal Oriau Dydd | Gofal Diwrnod Llawn | 35 | 142 | 0 | 0 |
| | Gofal sesiynol diwrnod llawn | 29 | 47 | 5 | 6 |
| | Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gofal y tu allan i oriau'r ysgol | 9 | 15 | 6 | 6 |
| | Darpariaeth Gofal Chwarae Mynediad Agored | 5 | 7 | 4 | 4 |
| | Nani | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | | **195** | **775** | **15** | **16** |

Mae'r data yn y tabl isod, sy'n deillio eto o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr ALl am y cyfnod rhwng 2017 a 2022, yn dangos cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg cofrestredig ac anghofrestredig (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) ochr yn ochr â nifer y lleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

| **Cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o ofal plant** | **Cyfanswm y Lleoliadau Gofal Plant Cofrestredig** | **Cyfanswm y Lleoedd** | **Cyfanswm y Lleoliadau Gofal Plant Anghofrestredig** | **Cyfanswm y Lleoedd** |
| Gwarchodwr Plant | 1 | 9 | 0 | 0 |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Oriau Dydd | Gofal Diwrnod Llawn | 7 | 282 | 0 | 0 |
| | Gofal sesiynol diwrnod llawn | 16 | 416 | 0 | 0 |
| | Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gofal y tu allan i oriau'r ysgol | 2 | 64 | 5 | 80 |
| **Cyfanswm** | | **26** | **771** | **5** | **80** |

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i darparu gan Garfan Rhaglen Dechrau'n Deg yr ALl ac mae'n amlinellu'r lleoedd gofal plant y Rhaglen Dechrau'n Deg a gafodd eu comisiynu o leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar gan yr ALl er mwyn darparu cynnig y Rhaglen Dechrau'n Deg i bob plentyn cymwys. Mae'n cynnwys gwybodaeth ers ymarfer tendro'r Rhaglen Dechrau'n Deg diwethaf yn 2018.

| **Lleoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu o leoliadau gofal plant** | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg** | **Nifer y lleoliadau Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar wedi'u comisiynu** | **Nifer y lleoedd wedi'u comisiynu** | **%** |
| Cyfanswm lleoedd gofal plant cyfrwng Saesneg y Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu | 23 | 530 | 77.3% |
| Cyfanswm lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg y Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu | 9 | 156 | 22.7% |
| **Cyfanswm** | **32** | **686** | **100%** |

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan Garfan Rhaglen Dechrau'n Deg yr ALl ac mae'n dangos ym mis Tachwedd 2020, ledled y Fwrdeistref Sirol, roedd 34 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg ychwanegol wedi'u prynu trwy leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cymeradwy. Roedd 12 o leoedd gofal plant cyfrwng Saesneg Dechrau'n Deg ychwanegol wedi'u prynu trwy leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cymeradwy, gan gynyddu cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant wedi'u prynu i 732. Mae hyn oherwydd dewis rhiant/gwarcheidwad neu ddiffyg lle ar gael mewn lleoliad gofal plant lleol.

| **Lleoedd Gofal Plant Ychwanegol y Rhaglen Dechrau'n Deg Wedi'u Comisiynu o Leoliadau Gofal Plant A'r Blynyddoedd Cynnar – Tachwedd 2020** |
|---|

| **Lleoedd gofal plant y Rhaglen Dechrau'n Deg** | **Nifer ychwanegol o leoedd wedi'u comisiynu a gafodd eu prynu** | **Cyfanswm newydd o leoedd wedi'u comisiynu** |
|---|---|---|
| Cyfanswm lleoedd gofal plant cyfrwng Saesneg y Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu | 12 | 542 |
| Cyfanswm lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg y Rhaglen Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu | 34 | 190 |
| **Cyfanswm** | **46** | **732** |

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn ystod y pum mlynedd academaidd flaenorol.

| **Cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn ystod y pum mlynedd academaidd flaenorol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliadau** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | |
| | **2015 / 2016** | **2016 / 2017** | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Nifer y Lleoliadau** | 22 | 24 | 25 | 23 | 19 |
| **Nifer y Cylchoedd Meithrin** | 25 | 27 | 25 | 25 | 20 |
| **Nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin** | 716 | 813 | 804 | 860 | 669 |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu nifer y dysgwyr cyn-feithrin (llawn amser a rhan amser) a meithrin (llawn amser a rhan amser) sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Cyfanswm nifer y dysgwyr cyn-feithrin (llawn amser a rhan amser) a meithrin (llawn amser a rhan amser) sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** |
| **Cyn-feithrin** | 24 | 27 | 26 |
| **Cyn-feithrin (rhan-amser)** | 19 | 29 | 39 |
| **Meithrin** | 421 | 406 | 437 |
| **Meithrin (rhan-amser)** | 140 | 130 | 95 |
| **Cyfanswm** | **604** | **592** | **597** |

## DEILLIANT 2: MWY O DDYSGWYR DOSBARTH DERBYN / PUM OED YN DERBYN EU HADDYSG TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae'r data yn y tabl isod yn amlinellu cyfanswm nifer y dysgwyr oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21. Mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:

| **Cyfanswm nifer y dysgwyr oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ystod y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | |
| | **2018 / 2019** | | **2019 / 2020** | | **2020 / 2021** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg** | 18,153 | 81% | 18,078 | 81% | 17,894 | 81.2% |
| **Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg** | 4,269 | 19% | 4,2204 | 19% | 4,152 | 18.8% |
| **Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd** | **22,422** | | **22,298** | | **22,046** | |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac yn amlinellu cyfanswm nifer y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Cyfanswm nifer y dysgwyr dosbarth Derbyn / pum oed sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** |
| **Dosbarth Derbyn** | 517 | 565 | 528 |
| **Dosbarth Derbyn (rhan-amser)** | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **518** | **565** | **528** |

**<u>DEILLIANT 3: MWY O BLANT YN PARHAU I WELLA EU SGILIAU IAITH GYMRAEG WRTH BONTIO O UN CYFNOD O'U HADDYSG STATUDOL I UN ARALL</u>**

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n amlinellu cyfraddau pontio plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y pum mlynedd academaidd flaenorol.

| **Cyfraddau pontio plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg am y pum mlynedd academaidd flaenorol** | |
|---|---|
| **Lleoliadau** | **Blwyddyn Academaidd** |

| | 2015 / 2016 | 2016 / 2017 | 2017 / 2018 | 2018 / 2019 | 2019 / 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y plant sy'n pontio o Gylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg** | 65.7% | 68.9% | 68% | 70.5% | 72.1% |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfraddau pontio dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Cyfraddau pontio dysgwyr rhwng pob Cyfnod Allweddol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** |
| **Y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol Dau** | 97.4% | 97.5% | 96.1% |
| **Cyfnod Allweddol Dau i Gyfnod Allweddol Tri** | 97.3% | 94% | 94.7% |
| **Cyfnod Allweddol Tri i Gyfnod Allweddol Pedwar** | 98.2% | 97.3% | 98.7% |
| **Cyfnod Allweddol Pedwar i Gyfnod Allweddol Pump** | 53.5% | 55.9% | 48.5% |

**DEILLIANT 4: MWY O DDYSGWYR YN ASTUDIO AR GYFER CYMWYSTERAU WEDI'U HASESU YN Y GYMRAEG (Y PWNC) A PHYNCIAU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Cyfanswm nifer y dysgwyr oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | |
| | **2018 / 2019** | | **2019 / 2020** | | **2020 / 2021** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg** | 12,685 | 80.6% | 12,868 | 80.4% | 13,346 | 80.7% |
| **Cyfanswm y dysgwyr sy'n** | 3,058 | 19.4% | 3,141 | 19.6% | 3,197 | 19.3% |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg** | | | | | | |
| **Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion uwchradd** | **15,743** | | **16,009** | | **16,543** | |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer y dysgwyr Blwyddyn Deg sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2020/21.

| **Cyfanswm nifer y dysgwyr Blwyddyn Deg sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** |
| **Blwyddyn Deg** | 496 | 513 | 517 |

Mae’r data yn y tabl isod yn deillio o StatsCymru. Mae’n amlinellu cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi’u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith), a’r rheiny heb eu cofrestru am y naill na’r llall, mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys 2019/20.

| **Cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi’u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith), a’r rheiny heb eu cofrestru am y naill na’r llall, mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Cymraeg (Iaith gyntaf)** | 17% | 17% | 18% |
| **Cymraeg (Ail iaith)** | 45% | 59% | 63% |
| **Heb eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg** | 34% | 24% | 19% |

Mae’r data yn y tabl isod yn deillio o StatsCymru. Mae’n amlinellu cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 wedi’u cofrestru ar gyfer Cymraeg Safon UG a Safon Uwch (iaith gyntaf neu ail iaith) mewn ysgolion uwchradd am y blynyddoedd academaidd, hyd at a chan gynnwys 2019/20.

| **Cyfanswm canran y dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 wedi’u cofrestru ar gyfer Cymraeg Safon UG a Safon Uwch (iaith gyntaf neu ail iaith) mewn ysgolion uwchradd am y tair blynedd academaidd flaenorol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Cymraeg (Iaith gyntaf neu ail iaith)** | 4.2% | 3.7% | I’w gadarnhau |

**DEILLIANT 5: MWY O GYFLEOEDD I DDYSGWYR DDEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN CYD-DESTUNAU GWAHANOL YN YR YSGOL**

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan y Consortiwm ac mae'n amlinellu cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd wedi cyflawni'r Siarter Iaith a 'Cymraeg Campus' hyd yma.

| **Cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd wedi Cyflawni'r Siarter Iaith a 'Cymraeg Campus' hyd yma.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel** | **Siarter Iaith** | | **Cymraeg Campus** | |
| | **Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg** | **Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg** | **Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg** | **Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg** |
| **Wedi cyflawni'r Wobr Efydd** | 17 | Pob un o'r 4 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gweithio tuag at gyflawni'r wobr efydd. | Dd/B | Dd/B |
| **Wedi cyflawni'r Wobr Arian** | 8 | Dd/B | 18 | Dd/B |
| **Arall** | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Mae dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn rhan o raglen beilot 'Cymraeg Campus'. |

**DEILLIANT 6: CYNNYDD YN NARPARIAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER DYSGWYR AG ADY (YN UNOL Â'R DYLETSWYDDAU WEDI'U PENNU GAN DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018)**

DD/B

**DEILLIANT 7: CYNYDDU NIFER Y STAFF ADDYSGU SY'N GALLU ADDYSGU'R GYMRAEG AC ADDYSGU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

Mae'r data yn y tabl isod wedi'i ddarparu gan Uned Gwasanaethau Cymraeg yr ALl. Mae'n amlinellu cyfanswm nifer a chanran y staff sy'n dweud eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg. Roedd yr wybodaeth yma'n gywir ar Awst 2020:

| **Cyfanswm nifer y staff sy'n dweud eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg** | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg** | **Rhugl (Cymraeg Lefel Pedwar a Phump)** | **Gweddol Rugl (Cymraeg Lefel Tri)** | **Cyfanswm (Cymraeg Lefel Tri, Pedwar a Phump)** |

| Categori | Cyfanswm nifer y staff | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Staff ysgolion** | 5,290 | 742 | 14% | 175 | 3.3% | 917 | 17.3% |
| **Staff sy ddim wedi'u lleoli mewn ysgolion** | 7,167 | 575 | 8% | 143 | 1.9% | 718 | 10% |
| **Cyfanswm** | **12,457** | **1,317** | **10.5%** | **318** | **2.5%** | **1,635** | **13.1%** |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CBGY ac mae'n amlinellu gallu gweithlu ysgolion yr ALl o ran y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20.

| **Gallu o ran y Gymraeg cyfanswm nifer yr athrawon (gan gynnwys penaethiaid, athrawon ysgol a cynorthwy-wyr cynnal dysgu ysgolion) sydd wedi'u cyflogi gan yr ALl** | | |
|---|---|---|
| **Lefel Sgiliau** | **Blwyddyn Academaidd 2019 / 2020** | |
| | **Nifer** | **%** |
| **Dim Sgiliau** | 457 | 22.1% |
| **Lefel Mynediad** | 456 | 22.1% |
| **Lefel Sylfaen** | 325 | 15.7% |
| **Lefel Canolradd** | 166 | 8% |
| **Lefel Uwch** | 128 | 6.2% |
| **Lefel Rhugl** | 511 | 24.8% |
| **Dim gwybodaeth ar hyn o bryd** | 21 | 1% |
| **Cyfanswm** | **2,064** | **100%** |

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CBGY ac mae'n amlinellu cyfanswm y gweithlu ysgolion (gan gynnwys penaethiaid, athrawon ysgol a chynorthwywyr cynnal dysgu ysgolion) sydd wedi'i gyflogi gan yr ALl sy'n dysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

| **Cyfanswm yr athrawon sydd wedi'u cyflogi gan yr ALl sy'n addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd 2019 / 2020** | |
| | **Nifer** | **%** |
| **Addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu swydd bresennol** | 448 | 21.7% |
| **Y gallu i addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol** | 143 | 6.9% |
| **Ddim yn gallu addysgu/gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg** | 838 | 40.6% |
| **Addysgu'r Gymraeg (y pwnc) yn unig** | 635 | 30.7% |
| **Cyfanswm** | **2,064** | **100%** |

DRAFT

Mae'r data yn y tabl isod yn deillio o'r CYBLD. Mae'n amlinellu cyfanswm canran yr athrawon wedi'u cyflogi gan yr ALl sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y tair blynedd academaidd flaenorol.

| **Cyfanswm canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn Academaidd** | | |
| | **2017 / 2018** | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** |
| **Athrawon cymwysedig sy'n addysgu'r Gymraeg yn iaith gyntaf** | 8.7% | 10.9% | 9.7% |
| **Athrawon cymwysedig sy'n addysgu'r Gymraeg yn ail iaith (yn unig)** | 39.1% | 38.6% | 39.6% |
| **Athrawon cymwysedig sy'n addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg** | 10.1% | 8.4% | 9.7% |
| **Athrawon cymwysedig sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd ddim yn gwneud hynny** | 3.6% | 6.3% | 3.8% |
| **Ddim yn gymwysedig i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg** | 38.3% | 35.9% | 37.2% |

DRAFT

## ATODIAD PEDWAR: LLEOEDD DROS BEN (CYBLD 2021)

| **Ysgol** | **Nifer y lleoedd** | **Nifer y Dysgwyr** | **Cyfradd sy'n llawn** | **Lleoedd dros ben** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | | | | |
| Ysgol Dolau (gan gynnwys yr Uned Gymraeg) | 504 | 510 | 101.2% | -1.2% |
| Ysgol Gynradd Heol-y-celyn (gan gynnwys yr Uned Gymraeg) | 443 | 335 | 75.6% | 24.4% |
| Ysgol Gynradd Penderyn | 263 | 206 | 78.3% | 21.7% |
| YGG Abercynon | 368 | 300 | 81.5% | 18.5% |
| YGG Aberdâr | 480 | 424 | 88.3% | 11.7% |
| YGG Bodringallt | 195 | 118 | 60.5% | 39.5% |
| YGG Bronllwyn | 269 | 237 | 88.1% | 11.9% |
| YGG Castellau | 300 | 256 | 85.3% | 14.7% |
| YGG Evan James | 390 | 295 | 75.6% | 24.4% |
| YGG Llantrisant | 386 | 272 | 70.5% | 29.5% |
| YGG Llwyncelyn | 383 | 316 | 82.5% | 17.5% |
| YGG Llyn y Forwyn | 225 | 171 | 76.0% | 24.0% |
| YGG Pont Siôn Norton | 305 | 269 | 88.2% | 11.8% |
| YGG Tonyrefail | 374 | 190 | 50.8% | 49.2% |
| YGG Ynyswen | 342 | 275 | 80.4% | 19.6% |
| Ysgol Garth Owlg - Primary phase | 467 | 357 | 76.4% | 23.6% |
| Ysgol Llanhari - Primary Phase | 221 | 187 | 84.6% | 15.4% |
| Cyfanswm Cynradd | 5915 | 4718 | 79.8% | 20.2% |
| **Uwchradd** | | | | |
| Ysgol Garth Olwg - Uwchradd | 1110 | 860 | 77.5% | 22.5% |
| Ysgol Llanhari - Uwchradd | 914 | 514 | 56.2% | 43.8% |
| YG Rhydywaun | 1038 | 1090 | 105.0% | -5.0% |
| YG Cwm Rhondda | 1023 | 755 | 73.8% | 26.2% |
| Cyfanswm Uwchradd | 4085 | 3219 | 78.8% | 21.2% |
| Ffynhonnell CYBLD Ebrill 2021 | | | | |

DRAFT

| RHESTR TERMAU | |
|---|---|
| RhDB | Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid |
| LU | Lefel Uwch |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CAY | Cyllid Anghenion Ychwanegol |
| ACB | Adroddiad Cynnydd Blynyddol. |
| CGB | Cynllun Gwaith Blynyddol. |
| CCG | Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| ADDGP | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant |
| GACCCD | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| BIPCTM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| AGP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| HDCA | Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol (EAST) |
| LM | Lefel Mynediad |
| CGE | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| SAB | Sefydliadau Addysg Bellach |
| GGD | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| LS | Lefel Sylfaen |
| MCS | Meithrinfa Cyfnod Sylfaen |
| RhDD | Rhaglen Dechrau'n Deg |
| LC | Lefel Canolradd |
| GHG | Gwybodaeth heb ei gasglu |
| PRhG | Protocolau Rhannu Gwybodaeth |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| ALl | Yr Awdurdod Lleol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| DCD | Dosbarthiadau Cynnal/Cymorth Dysgu |
| NEET | Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| CPCP | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth |
| ANC | Athrawon Newydd eu Cymhwyso |
| DS | Dim Sgiliau |
| LRh | Lefel Rhugl |
| UCD | Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| SAC | Statws Athro Cymwysedig/Athrawes Gymwysedig (QTS) |
| DAC | Darparwr Addysg Cofrestredig |
| ACEY | Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| CBGY | Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion |
| Y Cod 2002 | Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 |
| Deddf 2006 | Deddf Gofal Plant 2006 |
| Mesur 2011 | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Deddf 2013 | Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 |
| Rheoliadau 2016 | Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Rheoliadau 2019 | Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 |
| Rheoliadau 2020 | Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Y Coronafeirws) 2020 |
| Deddf ALNET 2018 | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 |
| Y Cod Drafft | Cod Drafft ADY Cymru - Rhagfyr 2018 |
| Y Mesur | Adran 13 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. |
| Y Cod Newydd | Y Cod Statudol ADY Newydd |
| Yr Urdd | Urdd Gobaith Cymru |
| CACC | Carfan Anghenion Cymhleth Cymru |
| CSGA | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| SCA | Swyddogion Cymraeg mewn Addysg |
| CSG | Cynllun Sabothol y Gymraeg |
| Y Garfan GYChI | Carfan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid |
| RhCT | Rhondda Cynon Taf |
| RhCI | Rhaglen Cydnerthedd Iechyd |
| GTC | Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth |
| AoST | Amserlen o Sgiliau Tyfu |

DRAFT